

# ECO'R WYDDFA

Rhif 199

MAWRTH 1994

Pris 25c

## PENCAMPWR ETO

Mae Colin Jones o Bontrug wedi ennill cystadleuaeth Prif Chwaraewr Bwrdeistref Arfon am yr eildro. A daeth llwyddiant i ran athletwyr ifanc eraill o fro'r Eco yn y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Fe gewch chi'r stori yn llawn ar dudalen 7.

Colin Jones



## GOFAL YN Y GYMRAEG



Tom ac Angharad Jones yn arwyddo'r Datganiad yn Llanberis.

Mewn cyfarfod cyhoeddus yng Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis arwyddodd dros gant o bobl ddatganiad yn galw ar Awdurdod Iechyd Gwynedd i sefydlu gweithgor iaith a fydd yn sicrhau darpariaeth lawn yn y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd yn y sir.

Trefnwyd y cyfarfod gan y Parchg John Owen a'r Prifardd Ieuan Wyn oherwydd fod pryder mawr ynglŷn â pholisi iaith yr Awdurdod. Glyn Tomos, Dinorwig, oedd yn llywyddu a chafwyd anerchiadau ganddo ef a'r Parchg John Owen; Phylis Ellis (Mudiad Cefn); Alun Ffred Jones ac Angharad Tomos (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Oherwydd diffygion y polisi iaith mae mwyafrif penaeithiad adrannau a mwyafrif staff rhai wardiau yn Ysbyty Gwynedd yn ddi-Gymraeg. Dyna'r gwir hefyd am lawer o benaeithiad yr Awdurdod Iechyd ei hun a'r Ymddiriedolaeth newydd a fydd yn rheoli'r Gwasanaeth Iechyd yng Ngwynedd. Bu cwyno hefyd am agwedd sarhau rhai o staff yr Ysbyty at y Gymraeg.

## Gorsaf Betrol Ysbyty Gwynedd?

Mae teulu o Ddeiniolen yn gobeithio ehangu eu busnes trwy godi gorsaf betrol ar safle Ysbyty Gwynedd. Er bod adroddiad yn y *Daily Post* yr wythnos diwethaf yn dweud mai cwmni Esso sydd y tu cefn i'r fenter, gall *Eco'r Wyddfa* gadarnhau mai Tim a Jackie Fraser Jones, Modurdy Beran, yw'r datblygwyr. A heddiw, yr *Eco* yw'r cyntaf i gyhoeddi lluniau o'r orsaf betrol y bwriedir ei chodi ar y safle.

Dywed Mr Jones iddo feddwl dro yn ôl am y posibilrwydd o godi gorsaf betrol ar dir yr Ysbyty. Cynigiodd y syniad i awdurdodau'r Ysbyty, ac aeth rhai misoedd heibio cyn iddynt ddangos diddordeb yn y cynllun.

Erbyn hyn mae'r cynlluniau manwl wedi eu gwneud. Ysbyty Gwynedd fydd yr ysbyty cyntaf yng ngwledydd Prydain i gael gorsaf betrol ar ei safle. Bydd cwmni Beran yn cael 'lease' o 100 mlynedd ar y safle. Yn ôl amodau'r cytundeb bydd

yr Ysbyty yn derbyn hanner elw'r orsaf betrol.

Y bwriad yw codi'r orsaf betrol ar yr ochr chwith i'r lôn sy'n arwain o Ffordd Pen-rhos at yr Ysbyty, lle mae'r maes parcio i ymwelwyr ar hyn o bryd. Bydd yr offer diweddaraf yn cael ei osod ynddi, yn cynnwys pŷmpiau petrol sustem ad-ennill anwedd, sy'n sugno ogleu'r petrol yn ôl i'r beipen yn hytrach na'i ollwng i'r awyr. Bydd yno hefyd gyfleusterau arbennig i alluogi gyrrwyr anabl i alw ar unwaith am help wrth y pŷmpiau

petrol. Bydd yr orsaf betrol yn costio £700,000 i'w chodi.

Gan ei fod yn ymwybodol o'r pryderon sydd gan lawer bod maes parcio gwerthfawr yn cael ei golli ar safle'r Ysbyty, mae Mr Jones yn brysio i egluro y bydd maes parcio newydd yn cael ei baratoi ar gyfer 370 o geir yn sgil y datblygiad hwn.


Howard a Sioned, mab a merch Tim a Jackie Fraser Jones fydd yn gofalu am yr orsaf betrol newydd a fydd yn darparu gwaith llawn amser ar gyfer chwech o bobl. Bydd Tim a Jackie eu hunain yn aros ym Modurdy Beran.

Bwriedir cyflwyno'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad yn fuan. Mae'n debyg y bydd y cais yn cael ei drafod gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon yn eu cyfarfod ym mis Ebrill. Tybed beth fydd penderfyniad y pwyllgor hwnnw?



Y Parchg John Owen yn annerch y cyfarfod.

Ar ddiwedd y cyfarfod cytunwyd i ail ymgynull yn y Fictoria, am 11 o'r gloch, fore Sadwrn, Mai 14, i drafod ymateb yr Awdurdod Iechyd i'r datganiad. Mae'r datganiad yn llawn i'w weld ar dudalen 2 o'r rhifyn hwn o'r *Eco*, ynghyd ag enwau a chyfeiriadau y gellir anfon llythyrau atynt i gefnogi galwad y cyfarfod cyhoeddus.





# ECO'R WYDDFA

Rhif 199  
MAWRTH 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDDOL**  
**IWAN ROBERTS**  
**LLEIFIOR, LLANRUG**  
(Ffôn: 675649)  
**JOHN PRITCHARD**  
**CILFYNYDD, LLANBERIS**  
(Ffôn: 872390)

## GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(0248) 670115

## DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)

## FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,  
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,  
Ceunant, Llanrug (650600)

## TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug (675605)

## TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,  
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,  
Pontnug (673696)

## TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

## TREFNYDD GWERTHIAINT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon  
Bach, Llanrug (650200)

## TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

## GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw  
yn eich ardaloedd.

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(0248 670726)

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys  
Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan,  
Bryn Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DEINIOLLEN:** W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y  
Bwlch, Dinorwig (870576)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri (870491)

## LLANRUG:

**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones,  
Dwyfor (870440)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,  
Sycharth (872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, MAWRTH 31**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS LUN, MAWRTH 21**  
os gwelwch yn dda

# DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

| RHIFYN     | DYDDIAD PLYGU | BLE?        | CYSYLLTU Â            | RHIF FFÔN     |
|------------|---------------|-------------|-----------------------|---------------|
| EBRILL     | MAWRTH 31     | CWM-Y-GLO   | Mrs Iris Rowlands     | 872275        |
| MAI        | EBRILL 28     | DEINIOLLEN  | Mr W. O. Williams     | 871259        |
| MEHEFIN    | MAI 26        | BRYNREFAIL  | Miss Lowri P. Roberts | 870580        |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 30    | BETHEL      | Mr Geraint Ellis      | (0248) 670726 |
| AWST       | —             | —           | —                     | —             |
| MEDI       | MEDI 8        | DINORWIG    | Mr Meirion Tomos      | 870056        |
| HYDREF     | MEDI 29       | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans         | 872407        |
| TACHWEDD   | HYDREF 27     | LLANBERIS   | Mr Gwilym Evans       | 872034        |
| RHAGFYR    | RHAGFYR 1     | CAEATHRO    | Mr Clive James        | 677438        |

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

## Llythyrau

### DATGANIAD GOFAL YN GYMRAEG

Dyma'r datganiad a anfonwyd o'r  
Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd  
yng Ngwesty Fictoria, Llanberis:

'Yr ydym ni, ddinasyddion  
Gwynedd, sydd â'n henwau yn  
amgauedig, ac a gyfarfu yng  
Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ar  
Chwefror 12, 1994, yn hysbysu  
Awdurdod Iechyd Gwynedd,  
Ymddiriedolaeth yr Ysbytai Llym,  
Ymddiriedolaeth y Gymuned, ac  
Ymddiriedolaeth Ambiwylans  
Gogledd Cymru y disgwylir  
datganiad cyhoeddus ganddynt  
erbyn Mai 1, 1994, y bwriedir  
sefydlu gweithgor iaith a fydd yn  
cynrychioli pob rhan o'r Gwasanaeth  
Iechyd yng Ngwynedd ac a fydd yn  
gyfrifol am weithredu ac ariannu  
cynllun iaith a fydd yn rhoi  
darpriaeth lawn yn Gymraeg.'

Beth am ysgrifennu llythyr i  
gefynogi'r alwan hon at y canlynol:  
**Mr GRAHAM HULSE,** Cadeirydd  
Awdurdod Iechyd Gwynedd;  
**Mr HUGH THOMAS,** Prif Weithredwr  
Awdurdod Iechyd Gwynedd;  
**Mr GEOFFREY DRAKE,** Cadeirydd  
Ymddiriedolaeth Uned Lem Gwynedd;  
**Mr HEFIN DAVIES,** Cadeirydd  
Ymddiriedolaeth Iechyd Cymunedol  
Gwynedd;  
**Mr KEITH THOMPSON,** Prif  
Weithredwr Ymddiriedolaeth Iechyd  
Cymunedol Gwynedd;  
**Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ambiwylans**  
**Gogledd Cymru.**

Cyfeiriadau'r uchod yw:

**COED MAWR, BANGOR,**  
**GWYNEDD LL57 4TP.**

Cysylltwch hefyd â Bwrdd yr Iaith  
Gymraeg yn mynnu bod y Bwrdd yn  
sicrhau statws llawn i'r Gymraeg yn  
y Gwasanaeth Iechyd yng  
Ngwynedd.

Y cyfeiriad yw:

**Y CADEIRYDD**

**BWRDD YR IAITH GYMRAEG**  
**CWRT Y GROES HIR**  
**47 HEOL CASNEWYDD**  
**CAERDYDD CF2 1AD**

## HEIDIO I DYWYN

Annwyl Olygydd,  
Bydd Ysgol Uwchradd Tywyn  
(Meirionnydd) yn dathlu ei  
chanmlwyddiant eleni ac ar ddydd  
Sadwrn, 30ain o Ebrill, fe drefnir  
Diwrnod Agored ac arddangosfa  
gyda noson gymdeithasol yn Neuadd  
Pendre am 8 o'r gloch.

Fel rhan o'r dathliadau, ar ddydd  
Sul 1af o Fai, mae'r Adran Gerdd yn  
gwahodd cyn-ddisgyblion fu'n canu  
yng nghôr yr ysgol — gwasanaethau  
carolau a sioeau cerdd — i ymuno  
mewn Cymanfa Ganu a Chyngerdd  
yng Nghapel Bethel, Tywyn. Y drefn  
fydd cynnal ymarfer am 3.30 yn y  
prynhawn gyda'r Gymanfa, a  
recordir gan Sain, i ddilyn am 6.30  
yr hwyr.

Gan ei bod yn Wyl y Banc  
gobeithiwn groesawu cymaint o  
gyn-ddisgyblion â phosibl ac  
edrychwn ymlaen at benwythnos  
hapus a bywiog.

Yn gywir,

**ELFYN JAMES,** Prifathro  
**MARION WASHINGTON JONES,**  
Pennaeth Cerdd.

## ADFER Y GOFEB

Annwyl Olygydd,

Nid myfi yw'r unig un a garai  
ddatgan ei fodlonrwydd — ar ôl hir  
grefu a pherswad — fod y gofeb  
rhyfel wedi ei hadfer ar fur mewnol  
yn Ysgol Penisarwaun.

Yn ffyddlon,

**JOHN E. WILLIAMS**  
Allt Riwth  
Llanrug

## YSGOL BRYNREFAIL 1919-1939

A oeddech chi yn ddisgybl yn Ysgol  
Brynrefail rywbryd rhwng 1919 a  
1939?

Os felly mae dau ysgolhaig o  
Fangor yn awyddus i gael rhywfaint  
o'ch hanes. Mae Mr T. M. Basset a  
Dr H. G. Williams yn olrhain  
dylanwad yr Ysgol ar fywyd yr ardal.

Maent wedi paratoi holiadur syml,  
ac yn gobeithio cael cymaint o'r cyn-  
ddisgyblion ag sy'n bosibl i'w lenwi.  
Byddai'r ddau yn ddiolchgar am bob  
help.

Gellir cael copïau o'r holiadur gan:  
**Mr Robert Williams,**  
**4 Tai Caradog,**  
**Deiniolen**  
(Ffôn: Llanberis 872571).

Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy

## CEFNOGWYR Y NANT

Annwyl Ddarllenwyr,  
Mae Cefnogwyr y Nant wedi  
ymgymryd â'r gwaith o drefnu apêl  
ariannol er budd y Ganolfan Iaith  
yn Nant Gwrtheyrn. A wnewch chi  
roi hwb i'n hymdrechion?

Gwyrth yw deall fod y Ganolfan  
Iaith bellach ar sylfaen gadarn,  
**OND ERYD DYLED O HYD.** Dyled  
ddilys y Nant yw hi, dyled yn  
bennaf ar adfer y tai yno a'r  
morgais ar y swyddfa. Mynnwn  
ddileu'r maen melin hwn fel y gall  
y Ganolfan ddatblygu'n hyderus i'r  
dyfodol.

Ein nod yw codi £75,000. Ydi,  
mae'n swm mawr ond rydym  
eisoes ymhell dros hanner y ffordd  
yno. A wnewch chi roi ysgwydd o  
dan y baich?

Sut fedrwyd chi helpu? Mae  
nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, ac yn  
bwysicaf efallai, trwy gyfraniad  
ariannol. Byddwn yn ddiolchgar o  
dderbyn pob rhodd (sieciau yn  
daladwy i 'Cefnogwyr y Nant').  
Dull arall fyddai trefnu rhyw  
weithgaredd codi arian yn eich  
ardal. Gwerth ychwanegol hyn  
fyddai lledaenu'r apêl i bawb yn  
eich bro. Beth am drefnu raffl, bore  
coffi, cyngerdd, rhyw weithgaredd  
noddedig neu unrhyw beth arall yn  
wir?

Mae cyfraniad Nant Gwrtheyrn  
i fudiad y dysgwyr yn unigryw ac  
amhrisiadwy. Mynnwn sicrhau ei  
dyfodol.

'BYW FYDDI NANT GWRTHEYRN'

Yn llawn ffydd.

**MOI PARRI**

Golygfan, Allt y Golch, Carmel,  
Treffynnon, Clwyd CH8 8QW  
Ysgrifennydd 'Cefnogwyr y Nant'

## CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

## STIMVAK

gyda'r offer mwyaf  
modern, diweddaraf,  
sydd ar gael. Am

fanylion cysylltwch â

## TEGID

## PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi



# Cofio'r Traddodiad Euraidd

Eleni, a hithau yn bum mlynedd ar hugain ers cau Chwarel Dinorwig, cytunodd Antur Padarn yn eu cyfarfod ar nos Iau, Chwefror 10fed, yn Ystafell Gymuned Penisarwaun, i symud ymlaen i wneud trefniadau i gofio'r achlysur.

Deallir mai dydd Iau, Gorffennaf 10fed 1969 oedd y diwrnod gwaith olaf, ac er fod chwarter canrif wedi mynd heibio ers hynny fe deimlir ei bod yn bwysig cofio y traddodiad euraidd sydd i'r diwydiant llechi yn Nyffryn Padarn.

Gobaith yr Antur yw ffurfio pwyllgor a all fynd ati yn ddiymdroi i wneud pa bynnag drefniadau sydd eu hangen i gofio'r achlysur. Eisoes mae Dr Dafydd Roberts, pennaeth Amgueddfa'r Gogledd, wedi estyn ei gefnogaeth lawn i'r bwriad yma. Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r pwyllgor, yna cysyllter yn ddiymdroi â Glyn Tomos, Cadeirydd Antur Padarn, Pen y Bwlch, Dinorwig. Anelir at gynnal cyfarfod cyntaf y pwyllgor yn gynnar ym mis Mawrth.

## CEFNOGI A BUDDSODDI ADNODDAU

Yn yr un cyfarfod fe ddaeth Gethin Clwyd, Swyddog o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i annerch yr aelodau. Soniodd y byddai'r Cyngor yn barod i gefnogi a buddsoddi adnoddau ar gyfer hyrwyddo cynllun a fyddai'n anelu at gael y bobl leol yma yn Nyffryn Padarn i ymddiddori fwyfwy nid yn unig mewn cerdded llwybrau

cyhoeddus ond mewn casglu a dod i wybod mwy am hanesion cefndirol nifer o'r llwybrau hyn. 'Roedd yn awyddus i wybod os oedd yna gymdeithas, mudiad neu grŵp, unigolion neu ysgolion o fewn y dryffryn a fyddai â diddordeb mewn gweithio ar gynllun o'r fath. Felly, os oes rhai â diddordeb ac eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â Glyn Tomos, Cadeirydd yr Antur.

## LLUNIO HOLIADUR

Adroddwyd yn yr un cyfarfod fod y gwaith o baratoi a llunio holiadur ar gyfer arolwg o fusnesau bychain lleol bron a'i gwblhau ac fe obeithir trafod hyn yn llawer mwy manwl yn y cyfarfod nesaf. 'Roedd yr aelodau hefyd yn falch o ddeall fod rhai o'r syniadau a ddaeth yn sgîl Arolwg Antur Padarn yn y broses o gael eu gwireddu. Cyfeiriwyd yn arbennig at y bwriad o geisio denu mwy o bobl i ymweld â chanol pentref Llanberis. Mae'n dda gweld yr awdurdodau perthnasol yn cymryd sylw o farn pobl Dyffryn Padarn.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Iau, Mawrth 17eg am 7 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned, Ysgol Gynradd Penisarwaun. Fel arfer mae croeso cynnes i unrhyw unddod i'r cyfarfod hwn.

## HYN AC ARALL

Wrth Daro'r Post ar bawn Llun roedd Gwilym Owen yn drwm ei lach ar y bobl a ddaeth i'r cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis i drafod 'Gofal yn Gymraeg'. Methu dallt yr holl ffws a ffwdan oedd o. Pan ydach chi'n sâl bois bach, does dim ots ym mha iaith y cewch chi driniaeth. Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn cael gofal ac yn gwella. Dwi'n ama dim ar hynny. Taswn i wedi torri fy nghoes, â'r doctor mwyaf gwrth-Gymraeg am fy nhrin, rwy'n amau a faswn yn mynnu bod y cyfaill yn cwblhau cwrs Wlpan cyn y cai fy helpu. Mi faswn yn falch o glywed, 'You should be on your feet in a week or two,' neu 'I'm happy to inform you that there will be no permanent damage.' Wrth gwrs y byddwn.

Ond nid dyna'r pwynt, Mr Owen. Nid beirniadaeth ar y nyrs neu'r doctor di-Gymraeg mo'r alwad am Gymreigio'r gwasanaeth iechyd, er bod ambell un ohonynt wedi bod dan y lach am eu hagwedd sarhau at yr iaith. Beirniadaeth ar agwedd yr Awdurdod Iechyd ei hun ydyw am roi'r argraff i'w weithwyr nad oes angen darparu gwasanaeth yn y Gymraeg i bobl Gwynedd. A does ryfedd i hynny ddigwydd pan nad oedd gan hyd yn oed ei Bwyllgor Dwyieithrwydd ei hun gopi o Bolisi Iaith yr Awdurdod. Galwad ydyw am i'r gwasanaeth gorau posibl fod ar gael, a hynny'n cynnwys hawl y claf i allu trafod materion iechyd yn y Gymraeg. Does bosib bod Mr Owen yn awgrymu bod rhai materion, fel iechyd, yn y bôn yn rhy bwysig i boeni am yr iaith a ddefnyddir wrth ddelio â nhw. Mi fedra i ddychmygu y byddai llu o wasanaethau eraill fel y Dreth Incwm, neu'r banciau neu gartrefi henoed preifat yn falch o drio dadlau bod eu gwasanaeth hwythau yn rhy bwysig i gybolio efo'r busnas iaith yma.

Wedi i Syr Wyn Roberts addo y

byddai'n ystyried y posibilrwydd o ganiatáu dangos y llythyren 'D' yn unig ar geir dysgwyr fe ddywedodd yn ddiweddar nad oes cysylltiad wedi'r cwblw rhwng yr 'L' ag unrhyw iaith arbennig. Ond fûm i'n dwp deudwch i gredu erioed mai 'L' am 'Learner' ydoedd. Ga i awgrymu mai 'L' am 'Lembo' ydyw, ac y dylid anfon pentwr ohonynt i'r Swyddfa Gymreig.

A sôn am y Swyddfa Gymreig, mae honno'n awr yn casglu gwybodaeth am lywodraethwyr ysgolion. Anfonwyd holiadur at bob llywodraethwr, ac mae ambell i gwestiwn diddorol ynddo. Mae'n well gan y Swyddfa Gymreig gael gwybod beth yw lliw croen llywodraethwr na gwybod faint all siarad neu ddeall y Gymraeg. Os yw llywodraethwr am ymddeol o'i swydd fe restrir naw rheswm posibl dros wneud hynny, ond nid yw anfodlonrwydd ynglŷn â pholisïau addysg y Llywodraeth yn un ohonynt. Ac mae'n awyddus i glywed barn y llywodraethwyr am effeithiolrwydd yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Corff Llywodraethol, ond nid am effeithiolrwydd polisïau'r Llywodraeth. Tybed a gyhoeddir mewn sbel ffigurau a fydd yn 'profi' bod llywodraethwyr yn anfodlon ar berfformiad Awdurdodau Addysg a Chyrff Llywodraethol, fel y bydd rhaid i'r Swyddfa Gymreig gymryd rhagor eto o'r cyfrifoldeb dros addysg ein plant i'w dwylo ei hun.

Gallwn longyfarch tîm pêl-droed dan 21 oed Cymru am ennill y gêm yn erbyn yr Alban yn Wrecsam. Ond tybed faint o gamp oedd hynny. Yn ôl y *Daily Post* ar fore'r gêm, ni fyddai tîm yr Alban yn cael ei gyhoeddi tan y bore wedyn! Dylem ddiolch nad Mr Alun Evans yw Rheolwr tîm Cymru; mae'n beryg mai rhyw tu chwith o bolisi fel yna o ddewis y tîm ar ôl y gêm fyddai ganddo yntau. B.R.



SIOP GREFFTAU  
CAFFI

CANOLFAN GARDD

**ANTUR WAUNFAWR**

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. - 3 p.m.  
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

**Bistro**  
43 - 45

Stryd Fawr

LLANBERIS. Ffôn 871278

*Rhwng Ynys Môn a Pharis*

*Does unlle gwell i'w dewis*

*Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,*

*Na'r Bistro yn Llanberis*

## AMSERLEN DOSBARTHAD TOCYNNAU MANTAIS BWS

gogyfer a Dalgylch Nant Peris yn Arfon 1994-95

### Dydd Mercher, Mawrth 9fed

|             |              |                                     |
|-------------|--------------|-------------------------------------|
| Dinorwig    | 9.30 - 10.00 | Y Ganolfan                          |
| Deiniolen   | 11.00 - 1.00 | Y Ganolfan                          |
| Cwm y Glo   | 2.00 - 2.30  | Ysgol Gwaengynfi<br>Neuadd yr Ysgol |
| Penisarwaun | 2.45 - 3.30  | Neuadd Eglwys<br>Santes Helen       |
| Brynrefail  | 3.45 - 4.15  | Festri'r Capel                      |

### Dydd Iau, Mawrth 10fed

|            |               |                                     |
|------------|---------------|-------------------------------------|
| Nant Peris | 10.00 - 10.30 | Festri'r Capel                      |
| Llanberis  | 10.45 - 12.45 | Canolfan Angorfa<br>Stryd y Ffynnon |
| Llanrug    | 2.00 - 4.00   | Festri Capel Mawr                   |

### Dydd Gwener, Mawrth 11eg

|          |               |                                   |
|----------|---------------|-----------------------------------|
| Waunfawr | 10.00 - 12.00 | Neuadd Fawr<br>Canolfan y Pentref |
| Bethel   | 2.00 - 3.30   | Neuadd Goffa                      |

Codir tâl o £3 am bob tocyn a werthir. Os am ymholiad amodau'r cynllun, cysyllter ag Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Penrallt, Caernarfon



# CHWILOTA TEULU FRANCIS, LLANBERIS



Mae nifer o'r darllenwyr yn cofio rhai o aelodau'r teulu'r Fransis yn byw yn Llanberis. Roeddent yn cadw siop yn y pentref, a chredai ambell un fod ganddynt siop yng Nghaernarfon hefyd. Daeth y wybodaeth fwyaf cynhwysfawr am y teulu oddi wrth Mrs P. James, Bryn Mair, Llanrug, cyn-athrawes yn yr hen Ysgol Brynrefail. Rhoddodd hi ddyddiadau derbyn y pedwar plentyn i Ysgol Brynrefail, ac maent yn cytuno â'r wybodaeth yn llyfr y Parchg John Pritchard ar *Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail, Arfon*.

Robert Hugh Francis oedd yr hynaf, a dechreuodd ar ei yrfa yn Ysgol Brynrefail yn 1919. Fe'i dilynwyd yn 1921 gan Emrys Manley; yn 1924 gan Dilys; ac yn 1929 gan Alwen. Mr a Mrs A. P. Francis oedd y rhieni, ac roeddent yn byw yn Fern Bank.

Mae gan Mrs James doriad papur newydd o 1960 yn adrodd peth o hanes gyrfa R. H. Francis. Wedi gadael Ysgol Brynrefail graddiodd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ac yng Ngholeg Emmanuel, Caer-grawnt. Yn 1932 ymunodd â'r *Royal Aircraft Establishment* ac erbyn 1939 fe'i penodwyd yn bennaeth *Flight Section* yr Adran Aerodynamic. Dair blynedd ddiweddarach ymunodd â'r *Marine Department Establishment*, a daeth yn arolygydd yr adran honno yn 1945. Erbyn 1949 roedd wedi ei benodi yn bennaeth Adran Arfau y *Royal Aircraft Establishment*.

Yn 1954 ymunodd â chwmni A. V. Roe, a chwe mlynedd yn ddiweddarach roedd wedi ei ethol yn un o gyfarwyddwyr y cwmni hwnnw ac yn dal swydd Prif Beiriannydd Adran Ymchwil Arfau. Ar amser y penodiad diweddaraf hwn roedd ef a'i deulu (dwy ferch) yn byw yn Hazel Grove, ger Manceinion.

Dyna'r wybodaeth yn ôl y toriad

papur newydd o eiddo Mrs James. Ond does gen i ddim o'i hanes yn dilyn 1960. Deallaf oddi wrth Eifion Roberts (Becws Eryri) fod un ai ei ferch neu ei wyres wedi bod yn Llanberis y llynedd yn holi am y cartref. A fu hi mewn cysylltiad â rhai o'r darllenwyr?

Rhaglen ddiddorol sy'n cael ei darlledu ar BBC Cymru ar nosweithiau Gwener yw *'All Our Lives'*, atgofion gan rai sy'n fyw heddiw o'r cyfnod cyn, yn ystod, ac yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwn fod unigolion o fewn y fro wedi rhoi cymorth tuag at gynhyrchu'r gyfres, a chafodd Llanrug sylw ar un o'r rhaglenni cyntaf. Un o'r rhai oedd yn cymryd rhan oedd O. M. Roberts (Dyffryn Conwy erbyn hyn, ond gynt o Park Villa, Llanrug). Soniai am gyfarfod pregethu yng Nghapel Mawr, Llanrug, a'r Dr John Williams, Brynsiencyn, yno yn annerch. Yn dilyn y rhaglen daeth gair gan un arall o drigolion Llanrug yn dweud ei bod hithau hefyd yn cofio'r achlysur: *'Capel Llanrug dan ei sang. Roeddwn i'n eistedd ar risiau'r galeri. Mae arnaf ofn na chofiaf y testun, ond anogai Dr John Williams fechgyn ifanc i ymuno â'r fyddin i fynd i ymladd dros gyfiawnder. Dyna*

*ddechrau'r trai ar grefydd yng Nghymru. Ameniodd llawer o rieni, a daeth bechgyn yn ôl o'r fyddin â fawr o barch at grefydd a'u hanogai i ymladd.'*

Daeth galwad ffôn gan gyfaill o'r Waunfawr yn cyfeirio at yr arfer o 'weindio'r cloc' yng Nghaernarfon ar nosweithiau Sadwrn. Doedd pawb ddim yn mynychu'r dref ar nos Sadwrnau ar ddechrau'r ganrif meddai — doedd llawer ddim yn medru fforddio mynd yno. Ond roedd yna ambell griw dethol oedd yn cadw at yr arfer yn rheolaidd ac yn teithio i'r dref mewn brêc. Roedd eu patrwm mor rheolaidd â'r drefn o weindio'r cloc, a dyna sut y cyfeiriwyd atynt fel y criw oedd 'yn mynd i weindio'r cloc' yng Nghaernarfon.

Yn ddiweddar daeth i'm meddiant gopi o *Cymru'r Plant* am 1923. Yn y flwyddyn hon aeth aelodaeth yr Urdd dros 1,000. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd bron i dri chant ychwanegol o aelodau wedi ymuno — ond methais â chael enw unrhyw un o bentrefi'r Eco yn eu plith. Efallai nad oes dim arwyddocad yn hynny, ond synnais weld cynifer o'r fro yn cyfrannu i'r cylchgrawn ymhlith enwau mwy adnabyddus fel Richard Morgan y naturiaethwr, Fanny Edwards y nofelwraig, a'r bardd Ioan Brothen.

Does gen i mo'r syniad lleiaf pwy oedd yr awduron hyn. Oes rhywun yn gwybod? Dyna E.J.P. o Fethel, Arfon, yn sgwennu am hanes 'Y Stiwdant'; a K. Jones (y fo neu hi?) o Lanrug yn adrodd nifer o straeon fel 'Gwobr Mair' a 'Modryb Gwen'. A phwy tybed oedd Nefydd o Lanberis yn adrodd hanes 'Trol Gyntaf y Wladfa' ond yn anfon cofion at y darllenwyr oddi wrth un o blant y Wladfa. Mae llun o'r drol yn cael ei gynnwys hefyd, a phenillion gan Llewelyn Cadfan o Dinorben, Patagonia.

Dyna i chi dri o bobl o'r fro hon yn cyfrannu i gylchgrawn cenedlaethol 70 mlynedd yn ôl. Ac y mae'n dipyn o gamp cael tri i gyfrannu i'r Eco y dyddiau hyn!

Anfonodd Mr Myrddin Williams, Penterfyn, Llanrug, restr o enwau siopau'r pentref yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd. Roedd deg ar hugain ohonynt yn bodoli yn y pentref bryd hynny, y mwyafrif ohonynt ar y ffordd o Sgwâr y Post i Bontrhythallt. Dyma'r enwau, gan ddechrau ym Mhontrhythallt: 1, Siop Bont, yn y tŷ, Rochdale House, poblogaidd am ei bod yn gwerthu *Penny Ducks*; 2, Siop Sinc ar lafar, ond Siop Eryri yn swyddogol; 3, Siop Harri Barbwr; 4, Siop Cigydd Glyndwr Williams dros y ffordd; 5, Becws Hugh Lloyd Jones; 6, Siop Cigydd William Roberts; 7, Siop Fferylllydd Mr Hoblin; 8, Siop y Foelas, y chwech siop olaf yn ardal Tai Disgwylfa a Thalybont.

Rhwng y Sefydliad Coffa a'r Post roedd: 9, Siop Newydd (Tŷ Fry heddiw), groser Hudson Roberts a W. M. Roberts; 10, Birmingham House, ironmonger, ac yn ddiweddarach Siop Chips Miss Gillespie; 11, Ty'n Gorlan (Wern heddiw), siop William Evans yn gwerthu papur newydd; 12, Siop John Evans Clocsiwr; 13, Siop

Groser Mr Barlow, dros y ffordd i Llys Forgan; 14, Siop Robert Jones, Cigydd; 15, Siop Bob Barbwr; 16, y Co-op; 17, Siop London House, David Haydn Griffith, yn arbenigo mewn dillad chwarelwyr; 18, Siop Furum Miss Owen yn Madryn House; 19, Siop Bren a Becws yng ngofal Mrs A. M. Roberts; ac yna 20, Y Post ei hun.

Ar Sgwâr y Post hefyd roedd: 21, Regent House, groser; 22, Siop Storer, groser; a 23, Siop Crydd Mr Pollit, siop crydd David Pritchard yn ddiweddarach.

Ar y ffordd bôst roedd: 24, Siop Groeslon Marc, groser; 25, Siop Crydd Bach y Waun; a 26, Siop Cigydd John Pritchard, Minffordd.

Ar y cyrion, fel tae, ond yr un mor bwysig roedd: 27, Siop Mamets yn Hermon; 28, Siop Wilson ar ffordd Crawia; a 29, Siop Cigydd Harry Ore, ble mae gweithdy W. J. Griffith heddiw.

Dyna restr Mr Williams. Diolch hefyd i Mrs Myfi Roberts, Rhes Plastirion, Llanrug, am gael benthg y lluniau o Elias Evans, Ty'n Gorlan, a Rolant Roberts, Crydd Bach y Waun.




Elias Evans, Ty'n Gorlan, yn 93 mlwydd oed.

Wrth ail-osod sgertins yn y tŷ yn ddiweddar, daeth Mr a Mrs Gwynfor Jones, Bryn Eden, Llanrug, ar draws hen bapur newydd sydd union gant oed. Darnau yn unig oedd yn ddarllenadwy. Mae'r hysbysebion yn ddiddorol iawn. Dyma'r tractor Fordson oedd yn gwneud gwaith chwe cheffyl, a'r dodrefn Siop Astons — seiddbord gyda *'Jacobean finish'* am ddim ond £7-12-0 ac un arall *'figured oak, fitted with secret baized cutlery drawer'* am £13-13-6. Oedd, roedd bargeinion i'w cael yn Astons!

Dyna i chi lond trol y Wladfa, neu lond seiddbord Astons o chwilota y mis hwn! Yn y rhifyn nesaf, gan fod yr Eco yn dathlu ei ddauganfed rhifyn, cawn gip yn ôl i'r flwyddyn 1794. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.

## 4 ff' SIDEBORD.



Seiddbord gwerth £7-12-0 o siop Astons 100 mlynedd yn ôl.



Rolant Roberts, Crydd Bach y Waun, yn cloi drws ei weithdy yn Llanrug. Bu'n cynnal y busnes yma am hanner can mlynedd, gan gerdded o'r Waunfawr i Lanrug ac yn ôl bob dydd gwaith.



## NANT PERIS

Elwyn Searrell Jones, Dwyfor  
Ffôn: 870440

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu y diweddar Arfon Griffiths, Bens gynt, a fu farw yn ei gartref yn Middlewich, Swydd Caer, yn ddiweddar.

**Busnes Newydd:** Dymunwn bob llwyddiant i Emlyn C. Baylis, Ty'n Llan, yn ei fusnes newydd yn Llanberis. Busnes dylunio graffeg, llungopio, atgynhyrchu lluniau ac yn y blaen yw 'Clôn', sydd wedi ei leoli yn hen siop Bon Marché yn y Stryd Fawr yn Llanberis.

**Diolch:** Dymuna Alan Pritchard, Llys Awel, ddatgan ei ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Rehoboth:** Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Chwiorydd Capel Coch a Rehoboth yn cael ei gynnal yn festri Capel Coch, am 2 o'r gloch, ddydd lau, Mawrth 10fed.

## CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Chwefror 4, yng Ngwesty'r Erw Fair, Llanberis, cafwyd anerchiad diddorol gan Mr Alwyn Evans, Caernarfon, ar hanes hynt a helynt Gorsaf Radio Marconi, Cefn Du, ynghyd â sylwadau bywgraffiadol byrion ar yr athrylith o'r Eidal a roes ei enw i'r lle. Llywyddwyd y noson yn ffracth a phendant gan Mr Emyr Jones, yntau o Gaernarfon, a thalwyd y diolchiadau gan Mr Evan Parry, Ceunant.

Dau gyfarfod sy'n aros yng nghalendr y Clwb (ag eithrio Gwibdaith Mehefin!), sef y Cinio Gŵyl Ddewi ar nos Wener, Mawrth 4, gyda Mr Gwynn Davies, Waunfawr, yn siaradwr; a nos Iau, Ebrill 7, pryd y ceir anerchiad gan Mr Geraint Elis, Bethel. Bydd y ddau gyfarfod yng Ngwesty Erw Fair yn ôl yr arfer.

**COFIWCH DDANFON  
NEWYDDION EICH  
CYMDEITHASAU  
I'R ECO!**

Cefnogwch ein  
Hysbysebwy

## CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

**Marwolaeth:** Nos Sul, Chwefror 6, yn frawychus o sydyn bu farw Mr Tony Jones, Isfryn, yn 46 mlwydd oed. Bu'r angladd ddydd Iau, Chwefror 10, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel ac yn dilyn ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, Y Parchg P. Pritchard a Mr J. R. Jones a'r organydd oedd Mr Gareth Jones.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'i briod Sioned, a'r ddau fab bychan Arwyn a Llion; Mrs Gwyneth Roberts (mam yng nghyfraith) a Melfyn (brawd yng nghyfraith) a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

**Llongyfarchiadau** i Mari a Gethin, Dôl Afon, ar enedigaeth merch, Sophie, chwaer fach i Lona.

**Diolchiadau:**

Dymuna Mrs Annie Hughes, Bryn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri ac ar ôl dod adref.

Dymuna Carys a Michael ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

Dymuna Mrs Sioned Jones, Arwyn a Llion, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Diolch yn fawr.

**Undeb y Mamau:** Cyfarfu'r aelodau

yn Hafan Elan ar nos Lun, 7 Chwefror. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Anfonwyd cydymdeimlad i Mrs M. Barlow a Mrs G. Roberts yn eu profedigaethau yn ddiweddar. Trafodwyd rhai materion gan Mrs Enid Taylor.



Mr Martin Barnicott yn dangos yr offer dringo i'r plant.

**Ysgol Cwm-y-glo:** Brawychwyd y pentref a'r ysgol gyda'r newyddion trist am farwolaeth sydyn Mr Tony Jones, Isfryn, sef gŵr annwyl Anti Sioned a thad caredig Arwyn a Llion. Mawr yw'n hedmygedd o ddewrder y teulu ifanc hwn yn eu galar ac estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â hwy yn eu profedigaeth lem.

Tra gwelwyd tristwch ar un aelwyd daeth llawenydd i deulu arall.

Ganwyd merch fach i Mari a Gethin Jones, Dôl Afon. Mae Lona wrth ei bodd gyda Sophie ei chwaer fach newydd.

**Clwb yr Ysgol:** Aeth gwobr gyntaf mis Ionawr i Mrs D. Pritchard, Glandŵr, Llanberis, a'r ail wobwr i Miss E. Hughes, Tan y Graig, Cwm-y-glo.

Aeth Daniel Owen, Blwyddyn 6, i siop W. H. Smith yng Nghaernarfon ar ran plant yr ysgol i dderbyn pecyn arbennig o lyfrau. Ychydig amser yn ôl buom yn casglu vouchers yn yr ymgyrch lyfrau hyn, a bellach mae'r llyfrau yn yr ysgol. Diolch i bawb a fu'n casglu ar ein rhan.

Cawsom fore hynod o ddiffr ac addysgiadol yng nghwmni un o'r rhieni, sef Mr Martin Barnicott o Frynrefail. Mis Hydref diwethaf roedd ef yn un o'r dringwyr profiadol oedd yn tywys tîm o ddringwyr i fyny mynydd Everest. Llwyddodd Mr Barnicott i gyrraedd y copa — camp arbennig iawn. Cawsom ninnau gyfle i weld ei ffilm o'r goncwest a gwrando ar ei hanesion difyr. Roedd Matthew ac Owen wrth eu bodd yn cael croesawu Dad i'r ysgol. Diolch yn fawr iddo am ddod.

Rydym yn falch iawn o groesawu Mrs Alwen Jones yn ôl i'r ysgol. Ar yr un pryd caredigrwydd o galon i Mrs Jennifer Roberts am ofalu am Bl. 3 a 4 yn ystod ei habsenoldeb.



Plant yr Ysgol yn falch o'r llyfrau newydd.

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD  
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

**FFENESTRI CELTAIDD**  
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

CYMHARWCH EIN PRISIAU  
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**  
**CANOLFAN CARPEDI**  
**WAUNFAWR**

Ar Agor  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
Ar Gau  
Sul a Mercher



Dewis eang o  
Welyau Sengl a Dwbl.  
Dewis eang o '3 Piece Suites'.  
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'  
Gwaith Contract.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc — allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

**WAUNFAWR 650291**



# O Siambr Selwyn

Symud o un sedd gefn i'r llall yn ddychmygol atgofus roeddwn i pan glywais ar y radio fod y Majestic wedi llosgi'n llwch. Wel, dyna gyd-ddigwyddiad meddwn.

Gadewch i mi egluro. Roeddwn i wedi cael gwahoddiad i lunio sgript radio ar gyfer y rhaglen 'Sglein' a ddarlledir bob nos Sul. Y drefn gyda'r rhaglen hon yw fod y cynhyrchydd, R. Alun Evans, yn gosod testun i ni lunio sgript arno — sgript a gymer tua chwe munud i'w darlledu. Coeliwch fi mae angen cryn dipyn o eiriau i lenwi chwe munud, ac mae hyn yn dipyn o sialens weithiau os nad yw'r testun yn cynnig fawr o weledigaeth pan grybwyllir o gynta' dros y ffôn. Ond mae'n syndod, o eistedd i lawr a myfyrio, fel y medrwch chi lwyddo i gwblhau y gwaith cyn y 'dedlein'.

Ond beth sydd a wnelo hyn â'r tân yn y Majestic meddech, y sedd gefn 'ma?

Wel, yn anaml iawn y galla i sgrifennu unrhyw beth heb fod na rywfaint o atgofion neu brofiadau personol yn mynnu ymwithio i'r gwaith, boed o'n bryddest ar gyfer y Genedlaethol neu yn erthygl ar gyfer Eco'r Wyddfa. Yn wir, fe ddwedwn i fod y mwyafrif o'm darnau adrodd ar gyfer plant yn esgor o brofiadau personol, ac o weithio yng nghwmni plant. Mae fy nyled i'n fawr i'r plant y ces i'r fraint o'u dysgu. A dwyn yn ôl atgofion i mi wnaeth y sialens o lunio sgript radio ar y testun 'Y Sedd Gefn'.

Roeddwn i wedi mynd yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd i'r sedd gefn gynta i mi ei chofio, sef y sedd gefn honno yn Ysgol Bethel ers talwm. Sedd i'w hofni ac i'w chasáu oedd honno. Sedd a wna i mi gywileiddio o gael fy anfon iddi yn nyddiau cynnar plentynod. Os na fyddai ein gwaith ni i fynd â'r safon, a'r 'sgrifentraed-brain' yn cythruddo Jos y Sgwyl, neu os y byddem yn afreolus neu yn ddiog — y gosb fyddai, cael ein gorfodi i dreulio rhan o'r diwrnod yn y sedd gefn, sef y ddesg wag honno yng nghornel bella'r ystafell ddosbarth. Ia, sedd gwaradwydd.

Ond, pan euthum i Ysgol Ramadeg Syr Hugh Owen, Caernarfon, roedd pethau'n wahanol. Sleifio o wirfodd i'r sedd gefn wna i yno, a hynny o ddiffyg hyder. Yno, roedd y gwersi i gyd drwy gyfrwng y Saesneg, a doedd gen i mo'r hyder i ofyn nag i ateb cwestiynnau yn yr iaith fain. Waeth gen i gyfadde ddim, fûm i rioed yn teimlo'n gartrefol wrth ddeud gair o

brofiad neu ddatgan barn yn Saesneg. Rydwi'n un o'r rhai hynny sy'n meddwl yn Gymraeg ac yna'n cyfieithu'n drwsgwl ac yn herciog i'r Saesneg. A dydio flewyn o ots gen i bellach, nad yw'r iaith fain rioed wedi llwyddo i lifo'n llyfn dros 'y ngwefusa i.

Ia, cuddfan i mi oedd y sedd gefn yn Ysgol Syr Hugh Owen ac fe sleifiwn yno o'm gwirfodd oherwydd fy niffyg hyder ac o bosib swildod.

Ond swildod neu beidio, yng nghyfnod yr Ysgol Ramadeg y bu i mi syrthio dros fy mhen a'm clustia mewn cariad am y tro cynta.

Y Guild Hall, Yr Empire a'r Majestic dyna'r mannau delfrydol a ddenai gariadon ifanc swil y dyddiau hynny, a rhaid oedd ciwio'n gynnar os am sicrhau cysur y sedd gefn.

Seddau cefn y Majestic oedd y rhai mwya cyfles — roedd rheiny yn seddau dwbl, ac yn werth pob dima o'r swllt a naw.

Ac yno, yn sedd gefn y Majestic yr oeddwn i, a'r ffilmiau yn chwarae mig ar fideo'r cof, pan glywais i fod y lle wedi llosgi'n llwyr. Cyddigwyddiad? Tybed? Mi wn i hyn, fe lifodd na wefr o dristwch drwy fer fy esgyrn i o glywed y newydd. Roedd na dalp arall o'r hen dre wedi diflannu yn fflamau'r tân.

Yno y gwelais i'r benfelen, fronog, goesiog, honno am y tro cynta. Betty oedd ei henw hi, Betty Grable.

Rwy'n i gweld hi o hyd ar fideo'r cof yn torheulo dan goed palmwydd ar draethell aur rhyw ynys bellenig, ac yn rhoi winc arnai o'r sgrin.

Roedd na rhyw Clarke Gable golygus hefyd, a'i esgus o 'fwstashe lein pensal' yn dod i'r Majestic ambell dro, a fedrwn i ddim peidio a theimlo'n genfigennus o hwn ar brydiau. Mi dria i innau dyfu mwstashe yr adeg honno hefyd. Ys gwn i pam?

Ond, twt lol, *actio* caru roedd Betty Grable, Clark Gable, Errol Flynn a Dorothy Lamour. Roedden ni yn caru o ddifri ym mlynnyddoedd aur ein harddegau yn sedd gefn y Majestic.

Galwad y bingo sy'n denu'r ffyddloniaid i'r Empire bellach, ac mae'r hen gloc yn dal i fesur amser ar fur y Guild Hall. Does na ddim 'Fun Pub' lle bu'r Majestic — dim ond tomen o rwbel wedi'r goelcerth.

*'Angerdd pob fflam a than pob newydd  
A dry'n ei dro yn lludw llwyd.'*

## YMWELIAD YR ESGOB Â PHLWYFI LLANDINORWIG A PHENISARWAUN

**Bu Esgob Bangor, Y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, ar ei ymweliad â phlwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun, ddydd Llun, 14eg o Chwefror, fel rhan o raglen sydd ganddo i ymweld â'r holl blwyfi yn ei esgobaeth yn ystod 1994 a 1995.**

Dechreuodd yr ymweliad ym mhentref Deiniolen am 9 a.m. pan gyfarfu y Parchg Tegid Roberts â'r Esgob a'i dywys i Ysgol Gwaun Gynfi i gyfarfod â'r Prifathro, Mr O. G. Roberts, a'r athrawon. Yr oedd gwasanaeth boreol arbennig wedi ei drefnu gan y disgyblion dan arweiniad y dirprwy-brifathro, Mr G. Fraser-Jones. Bu'r Esgob yn siarad gyda'r disgyblion am sumboliaeth yn yr Eglwys ac am y Grawys.

Ymunodd nifer o gyn-chwarelwyr ac aelodau o Seindorf Deiniolen â'r Esgob wedyn ar ei daith ar droed o gwmpas y pentref. Cafodd gyfle i weld y cae pêl-droed newydd a'r ystafell newid; Garej Arfon, Cwt y Band, y Clinig, a Gweithdy Sling, cyn ymadael mewn bws mini a neilltuwyd ar gyfer y wibdaith i barthau uchaf y plwyf gan Mrs Agnes Williams. Ymwelodd yr Esgob â Chwarel Dinorwig ac ar y ffordd yn ôl i Ddeiniolen galwyd heibio Eglwys y Santes Fair, Dinorwig.

Am 11.30 a.m. cafwyd gwasanaeth byr o adnewyddu addewidion bedydd yn Eglwys Crist, Deiniolen, ac fe'i dilynwyd gan ginio blasus dros ben a drefnwyd gan y Wardeiniaid a nifer o ferched cangen Deiniolen o Undeb y Mamau. Yn dilyn y cinio aeth yr Esgob i weld ffatri International Safety Components, sydd yn cyflogi 50 o weithwyr lleol.

Galwad cyntaf yr Esgob ym mhlwyf Penisarwaun oedd gyda Alwyn a Sarah Jones, a'u busnes blodau 'Blodau Racca', ac fe anrhegwyd yr Esgob gan Mrs Jones

â basged o flodau sych hardd iawn. Taith mewn car a ddilynodd i gyfeiriad Dinas Dinorwig, a chael cip ar Ffynnon Cegin Arthur islaw, cyn galw heibio i gartref y cyn-Archesgob, y diweddar Ddr Gwilym O. Williams. Cafwyd cyfle wedyn i ymweld ag Agrafrdy Peniprint, ac oddi yno aeth yr Esgob i Gartref Nyrsio Penisarwaun i gyfarfod â'r staff a nifer dda o'r preswylwyr.

Am 2.45 p.m. aeth yr Esgob i'r ysgol newydd, Ysgol Gymuned Penisarwaun, i gyfarfod â'r Prifathro, Mr R. O. Humphreys, yr athrawon a'r disgyblion. Yn fuan wedyn cafwyd gwasanaeth o Gymun Bendigaidd yn Eglwys Santes Helen. Cafodd y gwasanaeth ei recordio ar dâp ar gyfer y deillion gan Mr John Owen. I orffen yr ymweliad aeth y gynulleidfa drosodd i Neuadd yr Eglwys gerllaw i gael te, a drefnwyd gan y Warden a Mrs Annie Hughes. Amheuthun iawn oedd cael crempog gyda'r te a oedd yn rhoddedig gan Mr Selwyn Morris, y becar lleol. Cyn i'r Esgob ymadael cyflwynodd Tegid Roberts gloc o lechen iddo, a wnaed yn lleol gan Mr Gwilym Williams o Creffttau Elidir, i gofio am ei ymweliad â'r ddau blwyf.

Er gwaethaf gerwinder y dwyreiniwynt ar y diwrnod cafwyd diwrnod i'w gofio yng nghwmni yr Esgob a dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i bob un a fu'n ei gynorthwyo mewn unrhyw fodd i wneud yr ymweliad yn un llwyddiannus.

**CEFNOGWCH EIN  
HYSBYSEBWYR**

## GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dwr oer  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cwn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

## E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

**Ffôn: 870202 a 870272**

**TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI**

## CABS LLANRUG



**C'fon 675951**

**Prisiau cystadleuol  
Gwaith contract  
pell ac agos**



## CONCRO'R CWANGOS! PWY SY'N RHEOLI?

Ar ddiwedd Ionawr cyhoeddwyd adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) yn rhestru catalog di-ddiwedd bron o wastraff a cham-weinyddu gan wahanol asiantaethau yn gweithredu o fewn y sector gyhoeddus. Aeth Cadeirydd y Pwyllgor, Robert Sheldon, A.S., ymlaen i ddangos ei bryder ynglŷn â safonau atebolrwydd yr asiantaethau hyn; safonau, meddai, sy'n bodoli ers 140 o flynyddoedd.

Yn 1854, a Gladstone yn Ganhellor, cyhoeddwyd adroddiad ar y Gwasanaeth Sufyl wedi ei baratoi gan Syr Stafford Northcote a Syr Charles Trevelyan. Yr adroddiad hwn, ynghyd â sefydlu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei hun, a roes i Brydain egwyddorion a chanllawiau cadarn ynglŷn â rheolaeth dros arian cyhoeddus.

Bellach, yn ôl y PCC, mae'r cyrff cyhoeddus, ar lefelau lleol a chenedlaethol, wedi eu darinio a'u pwerau wedi eu rhannu i asiantaethau a cwangos nad ydynt yn uniongyrchol atebol i neb. 'Gweledigaeth' y llywodraeth Doriaidd sy'n gyfrifol am hyn.

Yng Nghymru mae yna 38 Aelod Seneddol. Chwec yn unig sy'n Doriaid. Ond y Toriaid sy'n rheoli. Maent yn gwneud hynny mewn dau ddull: Y Swyddfa Gymreig dan arweiniad y Gweinidog Gwladol, John Redwood; a thua 90 o Cwangs sydd a'u cadeiryddion a'u haelodau wedi eu hapwyntio gan yr union Weinidog Gwladol hwnnw. Mewn astudiaeth ddiweddar gan Brifysgol Cymru dateglwyd fod 34% o wariant y Swyddfa Gymreig y llynedd wedi ei wario gan y cwangos hyn. Cwangs fel Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a'r Bwrdd Datblygu Cymru Weledig; dau a ddaeth o dan lach y PCC yn ddiweddar am wastraffu arian a cham-weinyddu.

Yn sgil y cyhuddiadau o gam-weinyddu gan nifer o'r cwangos hyn mae amheuan hefyd ynglŷn â nawdd gwleidyddol: yr union gamwri yr oedd adroddiad Northcote-Trevelyan yn geisio'i ddileu — *'political considerations have led to the appointment of men of very slender ability and perhaps of questionable character to situations of considerable emolument ...'*

Yn ôl Alan Williams, A.S. Llafur, ac aelod o'r PCC, mae llai o

gynghorwyr etholedig yng Nghymru nag o aelodau penodedig o'r Cwangs. Ac un dyn sy'n gyfrifol am benodi'r cyfan o'r rheiny. Un dyn nad yw'n atebol mewn etholiad i unrhyw un o etholwyr Cymru (mae ei etholaeth rhywle ym mherfeddion Lloegr).

Mae'r Athro Peter Hennessy, awdrudod ar hanes llywodraeth, yn datgan mai'r hyn sy'n dod yn fwyfwy amlwg yw'r hyn mae'n ei alw yn *'gymdeithas mae gen i esgus' (the alibi society)* — *'Don't bother me, I'm only the Secretary of State'*. Hynny yw, er mai gwahanol Weinidogion y Goron sy'n gwneud yr apwyntiadau i'r gwahanol asiantaethau a cwangos, eto'i gyd maent yn eu cadw hyd

## Y TLYSAU'N AROS YM MRO'R ECO

Eleni eto fe drefnwyd noson lwyddiannus iawn gan Gyngor Bwrdeistref Arfon i wobrwyo



Caitlin Wroe

braich ac yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb am weithgareddau'r union gyrff hyn.


Dyma felly y math o 'lywodraeth agored' a addawyd gan y Prif Weinidog wrth lansio Siarter y Dinesydd. Mae llinell ffôn y Citizens Charter Helpline ar gael. Y rhif yw 0345 203045. Pan ffoniais y dydd o'r blaen, dyma'r ateb: *'Thank you for calling Charter Line. I'm sorry, but this service is not available from your area!'*

## HWYLUSO'R Ffordd

'Wyt ti wedi pasio'r prawf eto?' 'Ti'n saff ar y lôn dwad?' 'Pam na fasat ti'n dysgu flynyddoedd yn ôl?' Clywais hyn lawer gwaith yn ystod y misoedd diwethaf yma.

Mae safon, neu ddiffyg safon, gyrru a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hynny yn destun llosg ar hyn o bryd. Mae sawl ymchwiliad wedi cyfeirio at y cynnydd sylweddol yn nhrwch trafndiaeth, cyflymdra'r modur cyfoes, a'r cynnydd sylweddol mewn damweiniau a gaiff gyrrwyr ieuainc. Y mae'r erchyllderau sy'n dilyn damweiniau ble mae'r modur wedi ei ddwyn gan y 'lleidr' ifanc yn ddarlun byw i nifer o bobol. Onid y term 'joyrider' yw un o dermau mwyaf ffals ein hoes!

Ym mro'r Eco erbyn hyn mae gwasanaeth ar gael a all fod o gymorth i wynebu'r ffactorau uchod. Mae Richard Hughes o Ysgol Yrru Bethel wedi bod yn rhoi gwersi gyrru ar hyd y fro ers blynyddoedd, ond bellach mae'r gallu ganddo i roddi gwersi yng nghlydwch yr ystafell gartref. Y peiriant anhygoel yw'r 'Auto Tutor Simulator'.



Mae'r darpar yrrwr yn eistedd yn gyfforddus yn ei sêr. O'i gwmpas mae holl anghenion modur — sbardun, brêc, clyts, brêc llaw, darllenydd cyflymdra, ac ati. O flaen y gyrrwr mae sgrîn, sy'n rhyw lathen o led, ac fe ellir taflu lluniau gwahanol sefyllfaoedd gyrru ar y sgrîn honno — dod a groesffordd, cylchdro, goleuadau traffig, ac yn y blaen. Gellir creu sefyllfa ble mae angen y 'clutch control' a'r 'emergency stop'.

Gyda'r dull yma o ddysgu mae'n addas i'r gyrrwr ifanc o dan 17 oed gael gwersi cyn mentro y tu ôl i'r olwyn. Mae magu'r hyder yma yn gaffaeliad mawr. Bwriad Richard yw nid cynnig y gwasanaeth yma i unigolion yn unig ond hefyd, os fydd galw am hynny, i ysgolion fel rhan o raglen gwaith ysgol. Gan fod pob ysgol erbyn hyn yn cynnig rhai agweddau mewn dull 'modiwlwr', efallai y byddai hyn yn gweddu. Yn naturiol bydd cost y wers am awr gyda'r peiriant yn rhatach na'r wers arferol ar y ffordd.

Eisoes bu Richard yn ceisio dysgu Lyn Ebenezer (yr arch ddi-yrwr) i gymryd y llyw. Efallai i chwi weld y wers ar 'Hel Straeon' yn ddiweddar. Os hoffech fwy o wybodaeth am y gwasanaeth unigryw yma i fro'r Eco gellir cysylltu â Richard ar (0248) 671009.

Chwaraeon Arfon. Roedd y trefniadau tu ôl i'r lleni gan Aled Roberts a Jenny Fletcher wedi sicrhau noson lwyddiannus iawn.

Mae gan fro'r Eco record anhygoel yn y gystadleuaeth hon gyda'r prif dlws wedi ei hennill bob tro gan un o'r ardal. Unwaith eto, COLIN JONES oedd pencampwr chwaraeon y Fwrdeistref. Y mae'n dlws hollol haeddiannol i'r bachgen diymhongar hwn. Hon oedd blwyddyn gystadleuol olaf Colin o dan 20 oed, ac felly o hyn ymlaen fe fydd yn cystadlu ar lefel yr oedolion. Llwyddodd i ennill Pencampwriaeth Traws-gwlad Cymru unwaith eto. Ei brif berfformiadau yn ddiamheuol oedd cyflawni y Goron Driphlyg Seisnig. Enillodd Bencampwriaeth Siroedd Lloegr ym mis Ionawr ac yna dwy ras bwysig iawn yn Swydd Durham a Gateshead. Mae gemau'r Gymanwlad ar y gorwe ac yn sicr mae yn rhywbeth i anelu ato — ond rhaid cofio mai rhedwr ifanc yw Colin o hyd.

Rhaid cyfeirio hefyd at gyfraniad Morus Jones, tad Colin, sydd hefyd yn hyfforddi ei fab. Yn sicr mae'r oriau o deithio i Fae Colwyn i ymarfer yn dwyn ffrwyth. Buasai adnoddau cyffelyb ym Mangor yn gaffaeliad mawr. Mae'n siŵr fod Colin wrth ei fodd fod Clwb Rhedwyr Eryrl — sy'n cynnig tipyn o gyfle i ieuencid y fro — wedi ennill trlws Clwb y Flwyddyn.



Alun Vaughan

Daeth dau dlws arall i'r fro hefyd. Yn haeddiannol camodd ALUN VAUGHAN, Llanberis, i'r llwyfan i dderbyn tlws i'r bachgen mwyaf addawol o dan 18 oed. Cafodd yntau dymor llwyddiannus ac yn sicr gall edrych ar Colin fel un i'w efelychu — ar y trac ac oddi arno.

Am ei dawn ar y llethrau sgîo enillwyd y tlws i'r ferch fwyaf addawol o dan 18 oed gan CAITLIN WROE o'r Waunfawr.

Llongyfarchiadau i'r tri ac fe edmygwn ein hieuencid sy'n rhoi o'u hamser i ymarfer er mwyn gwella'r safon.

### THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

Sioe glybiau newydd

**RHOSYN A RHYCH**

gan Twm Miall

yng Ngwesty Dolbadarn,

Llanberis

Nos Wener, 4 Mawrth am 7.30

Am docynnau ffoniwch Aneirin,

Gwesty Dolbadarn

(0286) 870277

neu Rhiannon Pritchard

(0286) 871231

DDIM YN ADDAS I RAI DAN 18!!

## DRAENOG



Ac yntau'n gasglwr 'roedd wedi dibynnu ar ennill y pŵls fel y gallai dalu am ddathliadau 18 oed y ferch yn anrhydeddus.

Ni ddaeth y 'treble chance' i'w ffordd a doedd dim amdani ond cuddio yn y twll-dan-grisiau yn nhŷ ei fam nes y byddai'r dathlu drosodd.

'Doedd Nain ddim yn hapus o gwbl hefo'r syniad a bu'n rhaid iddi alw am y dyn drws nesa' i dorri'r drws i lawr i'w gael allan!



# DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen:** Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu at ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon ceisiadau, ynghyd â chopi o'r fantolen ariannol archwiledig ddiweddaraf, mewn amlen wedi ei marcio 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen' i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, Deiniolen, erbyn **dim hwyrach na 31 Mawrth 1994**.

**Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi:** Bu pwyllgor gwaith y 'Steddfod yn cyfarfod rhyw deirgwaith ers Eisteddfod 1993, gan drafod y priodoldeb o newid delwedd Eisteddfod 1994, gyda'r bwriad o ddenu diddordeb a chefnogaeth y pentrefwyr yn arbennig.

Cytunwyd i gyfyngu'r 'Steddfod i'r Sadwrn yn unig, gyda dau sesiwn, y naill yn cychwyn am hanner dydd, a'r llall am chwech yr hwyr. Bydd sesiwn pnawn Sadwrn yn dilyn y patrwm arferol, gyda chystadleuaeth unawd offerynnol (ag eithrio piano) dan ddeuddeg oed, yn ychwanegiad. Tynnwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer nos Sadwrn gyda rhyw ddeunaw o gystadlaethau. Mae llywyddion y ddau sesiwn wedi ymateb yn gadarnhaol i'n gwahoddiad iddynt ddod draw i'w henfro. Gwahoddir y pentrefwyr i nodi mai ar **29 Hydref 1994** y cynhelir y 'Steddfod, ac edrychir ymlaen am gefnogaeth lymus.

Bydd y pwyllgor gwaith yn cyfarfod eto ar 2 Mawrth i ystyried newid dyddiad cynnal y 'Steddfod o 1995 ymlaen, er hwylustod disgyblion ysgol ac eraill. Ceir canlyniad y drafodaeth ynglŷn â hynny yn rhifyn nesaf yr Eco.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Lun, Ionawr 17eg, o dan lywyddiaeth Mrs B. W. Davies. Llongyfarchwyd Mrs Eirian Jones ar enedigaeth Wyr — Gwion Rhys. Bydd Mrs Alice Griffith a Mrs Eirlys Williams yn ymweld â'r Arddangosfa Gelf a Chrefft ym Mangor.

Y gŵr gwadd oedd Mr Gwilym Vaughan Jones, Bangor, a chafwyd noson ddifyr a hwyliog yn ei gwmni ef a'i wraig yn dangos sleidiau a

lluniau o'u mordaith o amgylch y byd. Diolchwyd i'r ddau gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Iona Richards, Mrs Alice Griffith a Mrs Megan Morris. Enillydd y raffl oedd Mrs Margaret Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 21ain gyda Mr Duncan Brown, Waunfawr, yn sgwrsio ar y testun 'O'r Môr i'r Mynydd'. Cynhelir y Cinio Gŵyl Ddewi ar Fawrth 11eg yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis.

**Ysgol Feithrin:** Mae angen gwirfoddolwyr i helpu yn yr Ysgol Feithrin ar bnawn Mawrth a phnawn Mercher, o 2 tan 3 o'r gloch. Cymraeg wrth gwrs yn hanfodol. Enwau, os gwelwch yn dda i Valmai P. Williams, yn yr Ysgol Feithrin, neu Siân W. Huws, 8 Rhes Faenol, Deiniolen.

**Urdd St. Ioan:** Dymunir diolch yn fawr iawn i deulu Mr Griffith Thomas Jones am eu rhodd o £150 a tharian er coffadwriaeth, ar gyfer y cadlanciau a'r mudiad. 'Roedd Mr Jones yn aelod ffyddlon o'r Frigâd ers blynnyddoedd lawer ac yn Arolygydd Adranol yn Neiniolen hyd 1980 pan ymddeolodd a'i benodi yn lywydd.

**Clwb Snwcer Deiniolen:** Dyma ganlyniadau cystadlaethau y Nadolig — Snwcer dan 13 oed: 1, Richard Wyn Williams; 2, Geraint Owen. Snwcer dan 16 oed: 1, Michael D. Thomas; 2, Kelvin Jones. Snwcer hŷn: 1, John Williams; 2, Mathew Hughes. Billiards: 1, Meirion Jones; 2, Stan Roberts.

Y gŵr gwadd oedd Mr Gwyn O. Jones ac wrth iddo gyflwyno'r tlysau i'r buddugwyr fe ddiolchodd i bawb a gymerodd ran i wneud y noson yn un mor lwyddiannus.



Arwel Williams enillyddyr Unawd dan 10 oed ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru.

**Clwb Elidir:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor ar Ionawr 25, o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cawsom ychydig o hanes y Santes Dwynwen gan Mrs Jennie Eirlys Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Annie M. Morris, Mrs Megan P. Morris a Mrs Eve Braithwaite. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Eve Braithwaite a'r enillydd oedd Mrs Jennie E. Williams.

Cynhaliwyd cyfarfod arall ar yr 8fed o Chwefror, o dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris, pryd y rhoddwyd y te gan Mrs Janet Bingham, Mrs Aileen M. Jones a Miss Eileen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eileen Williams a'r enillydd oedd Mrs Pat Evans. Estynnwyd croeso i Margaret, ffrind Miss Jean Moeller i'n plith ac anfonwyd ein cyfarchion i Mrs Mary Thomas, cyn-aelod ffyddlon o'r

Clwb, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

## Diolchiadau:

Dymuna Gwyn, Einir ac Elfed, Cefn Coch, Rhiwlas (gynt o Pentre Helen), ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion hael o £300 tuag at Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Mary Thomas, St Teilo, ddiolch yn fawr am yr anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch arbennig i swyddogion ac aelodau Eglwys Cefn-y-waen am y rhodd hardd o Feibl a blodau. Carai ddiolch hefyd am eu hymweliadau cyson sy'n cael eu gwerthfawrogi yn fawr iawn. Diolch o galon i bawb.



Eilir Williams ac Euros Williams — enillwyr y ddeuawd ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru.

**Y Seindorf:** Llongyfarchiadau i'r aelodau a fu'n cystadlu ym Mangor yn ystod y mis ym Mhencampwriaeth Unawdau, Deuawdau a Phedwarawdau Bandiau Pres Gogledd Cymru, ac yn enwedig i'r canlynol ar eu llwyddiant — Unawd dan 10 oed: 1, Arwel Williams; 2, Gethin Jones; 6, Urien Siôn Huws. Unawd dan 12 oed: 3, Jennie Lyn Morris. Unawd 16-18 oed: 3, Siân Griffith. Deuawd: 1, Eilir Williams ac Euros Williams. Pedwarawd dan 18 oed: 2, Deiniolen. Pedwarawd Agored: 1, Deiniolen.

Llongyfarchiadau i Jennie Lyn Morris ar ennill Tarian Goffa Mr a Mrs O. H. Jones am fod y chwaraewr mwyaf addawol y flwyddyn; ac i Mr Meirion Jones ar ennill Tarian Goffa

Mr R. J. Childs am ei waith diflino i'r Seindorf yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Hoffem ddymuno pob llwyddiant i Siân Griffith gan ddiolch iddi am ei chyfraniad i'r Seindorf dros y blynnyddoedd. Mae Siân bellach yn y coleg yn Salford ac wedi ymuno â Band Flixton ger Manceinion.

Enillwyr Clwb Cant y Seindorf. Mis Ionawr — £25: H. Griffiths, Groeslon (52); £15: Neville Williams, Llandegfan (170); £10: R. A. Jones, Rhiw. Mis Chwefror — £25: Laura Williams (50); £15: R. A. Lewis (13); £10: D. W. Jones (143).

Fe fydd y Seindorf yn cystadlu yn Llandudno ar y pumed o Fawrth yn rownd gyn-derfynol Pencampwriaeth Prydain.



Cadlanciau Urdd St. Ioan yn derbyn tystysgrifau yn ddiweddar. Yn y llun mae Bethan Wyn Jones, Alison Jones, Julie Jones, Louise Armstrong a Joseph Jones gyda Mrs J. M. Jones y swyddog mewn gofal a Gwenan Watkins.

## Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser  
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff





Mr J. Cole Jones yn cyflwyno siec am £150 a tharian er cof am ei dad, y diweddar Griffith T. Jones, i Mrs J. M. Jones, Urdd Sant Ioan.

**Ysgol Gwaun Gynfi:** Daeth Esgob Bangor, sef y Parchedig Barry Morgan i ymweld â'r ysgol gyda'r Parch. Tegid Roberts. Aeth blwyddyn 5 a 6 i Lanberis i'r Gilfach Ddu. Cawsom groeso cynnes yno ac fe ddysgom lawer yno! Tra roedd blwyddyn 5 a 6 yn Llanberis cafodd dosbarth y babanod barti tedi fel rhan o'r thema ar dedi. Daeth Rhian Thomas a Mr Gwyn Williams i

ddosbarth Miss Jones gyda 6 ci i ddysgu i ni sut i drin cŵn. Diolchwn i Mr Huw Roberts am ddod i siarad am achub ar y mynyddoedd gyda phlant blwyddyn 5 a 6.

Gohebwyd: Lowri a Rhodri.

**Diolch:** Dymuna Dewi a Sharon James, 11 Rhes Faenol, ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Gwion Rhys, brawd bach i Gethin Rhys.

**Ebeneser a Chefnywaun:** Ni fydd oedfa yn cael ei chynnal yn yr un o'r ddau gapel nos Sul, Mawrth 6, gan y byddwn yn mynd i gapel Salem, Caernarfon, erbyn 5 o'r gloch, lle bydd y rhaglen 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' yn cael ei recordio. Byddwn yn ymuno ag aelodau Ysgolion Sul Annibynwyr Arfon. Croeso i bawb. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi'r ofalaeth yn Ebeneser, nos lau, Chwefror 24.

**Ebeneser:** Yn ystod yr oedfa nos Sul, Chwefror 20, etholwyd Mr Ieuan Parry, 'O'r Diwedd', 2 Hafod, Clwt-y-bont, yn drysorydd newydd yr eglwys. Llongyferchir ef a dymuna aelodau'r eglwys ddiolch iddo am dderbyn y swydd. Bydd yn olynu Mr Gwyn Parri, Cynefin, ddechrau mis Ebrill. Diolch iddo yntau am gyflawni'r swydd ers chwe mlynedd. **Y Gymdeithas Undebol:** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun,



Rhai o actorion cwmni Bora Llwyd mewn perfformiad, dan nawdd CADW, yn y Gilfach Ddu. O'r chwith i'r dde — Mr Vivian y Rheolwr: Paul Drake; gwraig chwarelwr: Dora Jones; Robat Jones, chwarelwr ac undebwr: Gwyn Parry.

Llun: Islwyn Jones

Chwefror 28, cafwyd sgwrs am hen gylchgronau gan lywydd y noson, Miss Margaret Elsbeth Jones. Dangosodd rai cylchgronau a gasglwyd gan ei theulu dros y blynnyddoedd, ac yn eu plith roedd copïau cynnar o *Cymru'r Plant*, *Trysorfa'r Plant*, a *Y Gymraes*.

Cafwyd hefyd Seiat Holi gyda Mrs Eirlys Williams, Mrs Margaret Griffith, Mr Robert Williams a'r Parchg John Pritchard yn ateb yr amrywiol gwestiynau. Penderfynwyd cynnal y swper blynnyddol yng Ngwesty Gwynedd yn Llanberis.



Mrs N. Hughes, Deiniolen, a Mrs G. Thomas, Caernarfon, yn dathlu eu pen-blwydd yn 80 oed yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. A ydyh yn cofio llun y ddwy efaill fach mewn rhifyn diweddar o'r Eco?

## 'Un funud fach . . .'

### GŴYL DDEWI

Tasa 'na gamera fideo ar gael yn y chweched ganrif mi fyddai gan rywun heddiw well syniad ynglŷn â bywyd Dewi Sant. A chan fod pum canrif arall wedi pasio cyn bod Rhigyfarch wedi mynd ati i sgwennu ei hanes mae'n anodd bod yn siŵr beth sy'n wir am y gŵr a gofiwn heddiw.

Ond mae dau beth a wyddom wedi dod yn sail i'r diolch a'r dathlu yn enw Dewi. Roedd Dewi yn ddyn ei wlad ac yn ddyn yr Efengyl.

Fe'i cofir am iddo deithio trwy Gymru yn cyhoeddi yn Gymraeg y neges oesol am yr Arglwydd Iesu Grist. A llawenydd Cristnogion Cymraeg eleni eto yw bod modd diolch i Dduw bod gennym o hyd Efengyl gras yn cael ei chyhoeddi yn y Gymraeg yn ein gwlad. Anodd iawn yw gwahanu'r Efengyl a'r traddodiad Cristnogol oddi wrth yr iaith yng Nghymru.

Nid mai'r un peth ydynt wrth reswm. Mae yna Gristnogion di-Gymraeg yng Nghymru, ac fe gewch

chi Gymry di-gred. Ond i bawb sydd wedi ei ddwyn i ffydd yng Nghrist yn sŵn y Gymraeg, mae gras Duw yn defnyddio'r iaith yn gyfrwng i ddwyn y neges am Iesu i glyw cenedl yn fater i ryfeddu ato ac i lawenhau ynddo.

JOHN PRITCHARD

## IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd  
**DEINIOLLEN**  
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

## OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth


Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

Am eich  
**ANGHENION  
ADEILADU**  
mawr a bach  
**MASNACHWYR**  
A "D.I.Y."

am  
**BRISIAU  
CYSTADLEUOL**  
dewch at

**BRYN**  
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol  
Glanmoelyn  
LLANRUG**  
Ffôn: 677482

**Gwynedd  
Hotel**  
& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



# ECO'R IFANC

Diolch i blant Ysgol Gynradd Bethel am anfon hanes eu hymweliad â Gwasg Gwynedd atom. Fel y gwelwch, cawsant weld Eco'r Wyddfa yn cael ei argraffu. Maent hefyd wedi gwneud arolwg o'r nifer o'r cartrefi sy'n derbyn yr Eco, a cheir canlyniadau eu harolwg yma. Rhoesant hefyd i ni hanes un o arloeswyr y grefft o argraffu — Johann Gutenberg.

Tra yng Nghaernarfon aeth plant yr Ysgol hefyd i Swyddfa Ddosbarthu y Swyddfa Bost ar Stad Cibyn. Fe welwch o'r lluniau eu bod wedi cael golwg ar waith mawr y Swyddfa honno.

## Ymweliad â Gwasg Gwynedd

Heddiw, dydd Iau y 27fed o Ionawr aeth disgyblion Bl. 5/6 i ymweld â Gwasg Gwynedd yng Nghibyn, Caernarfn.

Cyrhaeddodd y bws o flaen yr ysgol am 9.55 ac aeth 30 ohonom a 3 o'r athrawon a'n camerau a'n bordiau clip am 10.00.

Meddyliodd Kelly a fi am 30 o gwestiynau i'w gofyn.

10.05 neu 10.10 y cyrhaeddasom yr adeilad. Roedd ci defaid ifanc yn ein croesawu y tu allan.

Brawd yng nghyfraith Mrs Elis, sef Mr Alwyn Elis oedd yn ein tywys a'n dysgu a'n cadw'n ddiddan. Mr Elis yw perchennog y Wasg.

Cawsom weld y peiriannau peryglus yr olwg oedd gyda'i gilydd yn werth y cyfanswm o dros gan mil o bunnau. Daeth y periannau o'r Almaen. Roedd rhai o'r peiriannau yn 12 mlwydd oed, rhai eraill yn 4 a rhai yn 2 oed.

Yn 1972 y sefydlwyd y wasg ac ym mis Tachwedd eleni mae'r wasg yn 21 oed.

Maent yn pryn 40,000 o daflenni papur, sydd i'w cael yn Awstra, Yr Alban, Yr Almaen, Lerpwl a Sweden. O Glwyd maent yn cael yr inc. Maent yn prynu tuniau inc sy'n pwyso 2.5 kg.

Mae'r peiriannau'n cynhyrchu bron i 3 mil o'r Eco bob mis ac mae'n cymeryd 2 ddiwrnod i argraffu'r Eco'n fisol.

O 8.30 i 5.00 yw'r oriau gweithio. Y prifardd Selwyn Griffith ddewisodd enw'r 'Eco'.


Mae'r wasg yn cyhoeddi llyfrau, tocynnau cyngherddau, comics, anfonebau, penllythyrau a hysbysebion gwyliau.

RHIAN WILLIAMS, Bl.6

# Ymweliad Plant Ysgol



ECO'R WYDDFA



| Enw:        | Rhif: |
|-------------|-------|
| A ERYRI     | 5     |
| B ELIDIR    | 2     |
| C TRYFAN    | 4     |
| D GRIB GOCH | 3     |
| E WYDDFA    | 4     |

Mae plant Eryri yn derbyn mwy o Eco'r Wyddfa. Yn y dosbarth i gyd mae 18 yn derbyn a 12 ddim yn ei gael. Allan o'r 12 mae 2 blentyn ddim yn gallu cael hyd iddo a 2 arall yng byw yng Nghaernarfon a 8 teulu ddim yn deall Cymraeg.



# Bethel â Gwasg Gwynedd a Swyddfa'r Post

## Gwasg Gwynedd

Dydd Iau, Ionawr 27, aeth ein dosbarth ni, sef blwyddyn 5/6 i ymweld â Gwasg Gwynedd. Cyn cychwyn dyma Mrs Elis a ni y plant yn casglu dipyn o gwestiynau ar bapur. Ar ôl gorffen dyma'r bws yn cyrraedd am 10.00 a.m.

Cyrhaeddodd yn Gwasg Gwynedd am 10.15 a.m.

Pan aethom drwy'r drws roeddem yn gallu arogl yr oel a'r inc.

Yn gyntaf roeddem mewn cylch o amgylch Mr Alwyn Elis. Mr Alwyn Elis oedd yn dweud wrthym beth oedd y peiriannau yn ei wneud a faint oeddynt yn gostio, faint oedd eu hoed ac o le roeddynt yn dod.

Roedd y peiriannau mawr wedi costio £25,000 yr un. Mae y rhai bach yn costio tua £10,000 yr un, hefo ei gilydd mae'r holl beiriannau yn costio mwy na £100,000. Gofynnodd ein grwp ni, sef Gwenan a Jennifer, 16 o gwestiynau. Dyma 3 ohonynt:

(1) Pa bryd agorwyd y lle? 21 o flynyddoedd yn ôl oedd yr ateb, yn 1972.

(2) Faint o bobl sydd yn gweithio i chi? 11 o bobl oedd yr ateb.

(3) Pwy ddewisodd teitl i'r Eco'r Wyddfa? Yr ateb oedd Selwyn Griffith.

Ar ôl gofyn yr holl gwestiynau aethom i'r ystafell dywyll. Dangosodd Mr Alwyn Elis sut oedd y plât yn gweithio.

Roeddynt yn rhoi y negative ar y plât ac yn rhoi y plât yn y peiriant, wedyn pan oeddeynt yn tynnu y plât allan roedd y sgwennu wedi'i drosglwyddo ar y plât.

Wedyn dyma ni yn mynd i ystafell lle roedd y cyfrifiaduron a dyma Chris yn sgwennu paragraff am ein hymweliad â Gwasg Gwynedd.

Roedd hi yn amser mynd adref.

Yn y drws roedd y comic 'Penbwl', a argraffwyd yn y wasg, ar gyfer pob un ohonom.

Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac ar y bws roedd pawb yn ddistaw yn darllen y comic Penbwl!

NIA THOMAS, BI.6




## Johann Gutenberg

Cafodd Gutenberg ei eni yn Mainz yn yr Almaen yn 1400. Bu farw yn 1468. Roedd yn 68 blynedd oed pan fu farw.

Dyfeisiodd argraffu ac y fo wnaeth y Beibl cyntaf gyda llythyren Gothic yn dechrau pob brawddeg.

IAN W. HUGHES, BI.6



## Johann Gutenberg

Cafodd ei eni yn Mainz yn yr Almaen. Nid yw haneswyr yn siwr pryd cafodd Johann Gutenberg ei eni. Gensflisch oedd enw ei deulu, ond newidiodd ei enw i Gutenberg, enw teulu ei fam.

Pan oedd Gutenberg yn ifanc cafodd ei hyfforddi i drin metalau ac roedd yn gysylltiedig ac urdd crefftwyr aur. Pan oedd yn gweithio yn Mainz datblygodd ffrae rhwng yr urddau a llywodraeth y ddinas. Roedd rhaid i Gutenberg ddianc.

Aeth i Strassberg. Roedd yn byw yno am tua deng mlynedd. Does neb yn sicr pa flwyddyn y dychwelodd i Mainz. Nodir yn nogfennau swyddogol y ddinas ei fod yno yn 1448.

Yn Strassberg roedd yn ddyn busnes yn y maes metalau. Yr un pryd roedd yn datblygu teip symudol. Roedd wedi gwneud gwasg bren ac wedi prynu llawer o ddeunydd argraffu. Cariodd ymlaen i arbrofi yn Mainz.

Yn y cyfnod yma roedd llyfrau yn cael ei copïo gyda llaw neu gyda blociau pren, un bloc o bren i bob tudalen. Breuddwyd Gutenberg oedd cael argraffu gyda dulliau mecanyddol, sef defnyddio teip metal symudol. Gobeithiai wneud moldiau o lythrennau'r wyddor a'i llenwi gyda haearn poeth, sylwodd Gutenberg y gallai ail drefnu y llythrennau yn wahanol a'u defnyddio eto. Fel hyn y dyfeisiodd y dull o argraffu.

Benthyciodd arian gan ŵr o'r enw Johann Fust, gyda'r arian prynodd ddeunydd argraffu. Seliwyd partneriaeth rhwng Gutenberg a Fust yn 1450. Y llyfr cyntaf gafodd ei argraffu ganddynt oedd Y Beibl 42 llinell.

Bu farw ar y trydydd o Chwefror 1468.

SARAH JONES, BI.6





# ORIEL TAI'R FAENOL

Mae yna fwy nag un oriel luniau ym mro'r Eco. Dyna i chi'r Oriel yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis, er enghraifft, ac mae o leiaf ddau o hysbysebwyrr rheolaidd yr Eco yn gwerthu lluniau ac yn cynnig gwasanaeth fframio lluniau. Ond wyddech chi fod yna Oriel yn Neiniolen? Nid mewn siop nag adeilad pwrpasol y deuwch o hyd iddi, ond yn nhŷ Mr Hugh Jones, yn 6 Tai'r Faenol. Agorwyd yr oriel fach hon yn benodol i godi arian at elusen arbennig, a darluniau Hugh Jones ei hun sydd i'w gweld ynddi.

Rhyw ddeuddeng mlynedd sydd ers i Hugh Jones ddechrau paentio lluniau ac ers hynny bu'n treulio bron bob gyda'r nos yn gwneud lluniau pensil neu ddyfrliw. Er bod ambell dirlun ymhlith ei luniau, portreadau a lluniau anifeiliaid yw'r rhan fwyaf o'i ddarluniau. Mae'r portreadau a welir yn ei gartref yn rhoi rhyw syniad i chi am newyddion y dydd, gan fod Hugh Jones yn aml yn seilio'r portread ar lun a welwyd yn y papur newydd. Y mis diwethaf, er enghraifft, roedd lluniau o Brian Johnson, Graham Taylor a Graeme Souness i'w gweld yno.

Rhyw flwyddyn yn ôl penderfynodd Hugh Jones arddangos y lluniau yn ei gartref a'u gwerthu er budd Ymchwil y Cancr. Gwerthwyr y lluniau hefyd yn siop yr elusen yng Nghaernarfon. Ac ers rhai misoedd bellach mae cymdogion a chyfeillion wedi derbyn ei wahoddiad i ymweld â'i gartref i weld rhagor o'i ddarluniau. Mae Hugh Jones yntau yn fawr ei groeso, ac yn gwerthfawrogi'r ffaith nad oes neb yn mynd oddi yno heb roi rhodd tuag at Ymchwil y Cancr. Yn ddiweddar



Viv Richards



hefyd fe anfonodd luniau o gi bach i'w gwerthu er budd Apêl Ymchwil y Galon yng Nghymru ar y rhaglen 'Heno' ar S4C.



Ian Wright, Arsenal

Cyn bo hir bydd rhai o luniau Hugh Jones i'w gweld yn yr Unol Daleithiau. Mae'n bwriadu anfon dau lun i gystadleuaeth 'Birds in Art' a drefnwyd gan y 'Leigh Yakey Woodson Art Museum' yn Wausau. Cafodd ei berswadio i ymgeisio yn y gystadleuaeth gan berthynas iddo sy'n artist proffesiynol yn yr Unol Daleithiau. Merch i gyfneither iddo yw Erica Smith Delong sydd â'i stiwdio a'i harddangosfeydd ei hunan yn Easton. Ymfudodd ei nain hi i'r America o Ddeiniolen, a bu

mam Hugh Jones a hithau yn gohebu â'i gilydd am flynyddoedd. Ar ôl i'w fam farw daliodd Hugh Jones i ohebu â nain Erica, ac yna â'i mam. Mae Erica â'i gŵr wedi ymweld â Mr Jones ddwywaith erbyn hyn, a thra yma amser Diolchgarwch y llynedd fe berswadiodd Erica ei hewythr i anfon y lluniau i'r gystadleuaeth. Dymunwn y gorau iddo yn y gystadleuaeth. Ond os digwydd iddo fod yn llwyddiannus, does yna fawr o obaith y bydd Hugh Jones yn teithio i Wasau i dderbyn



Sean Connery

ei wob, gan ei fod yn cyfaddef fod arno ofn hedfan.

Galwch heibio i weld y lluniau. Byddwn yn siŵr o gael croeso cynnes yn yr oriel fach hon. Ond peidiwch â baglu wrth y drws ffyrnt na dim felly, rhag ofn i'r tro trwstan gael ei adrodd mewn pennill neu ddau gan H.J. yn yr Eco. Yr un ydi'r artist a'r bardd.



Mr Hugh Jones gydag Erica Delong fis Hydref y llynedd.

## DRAENOG



Daeth ymddiheuriad oddi wrth Bencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn i yrrwr car bach clasurol o Lanrug. Tybio wnaethai dau blismon diarth iddyn nhw ddarganfod troseddwr mawr pan feddylion nhw bod y gŵr bonheddig yn gyrru'r car bach heb wisgo gwregys diogelwch. A dyna roi dirwy iddo yn y fan a'r

lle. Ond bu camweinyddu cyflawnder. Oherwydd ei oedran (y car, nid y gyrrwr!) doedd dim rhaid cael gwregys diogelwch ynddo, a fu ddim rhaid i'r cyfaill dalu'r ddirwy wedi'r cwbl. Mi fase'r heddlu wedi gallu osgoi embaras i bawb tase nhw wedi cofio brawddeg a welwyd yn 'Y Goleuad' y llynedd: 'Pan yw Gweinidog Llanrug wrth y llyw, ar lawr yr Henaduriaeth neu yn yr XR3, Belt Up yw'r egwyddor'. Fyddai o ddim yn debygol o anghofio rheol sydd mor agos at ei galon.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo  
**MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE**  
40 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY  
Ffôn:  
(0248) 714043  
neu C'fon 674520  
Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc

## GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau

Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati  
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

## BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

## Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon  
**LLANRUG**

Caernarfon 673513





# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

**Ysgol Feithrin:** Os oes gennych blentyn a fydd yn 2½ oed yn ystod y flwyddyn ysgol 1994-95, ac os dymunwch iddo/iddi fynychu'r Ysgol Feithrin ym Mhenisarwaun, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Gwen Griffiths, ar Llanberis 872436 i gael gwybodaeth pellach.

**Cylch Meithrin Penisarwaun:** Dymuna aelodau pwyllgor yr Ysgol Feithrin a'r rhieni ddiolch i Mrs Judith Harding am ei gwaith caled a dymunir yn dda iddi. Estynnir croeso cynnes i Mrs Julie Williams, yr arweinydd newydd, a gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn gweithio yn y Cylch Meithrin.

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol:** Trefnir bws o Benisarwaun, cychwyn o flaen yr Ysgol am 4.15 p.m., i fynd i Gapel Salem, Caernarfon, i recordio'r rhaglen boblogaidd 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Enwau cyn gynted â phosib i Elisabeth Jones ar 872421.

**Gwellhad:** Anfonir cofion at Dave Phillips, Waun, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen wedi iddo dorri ei goes.

Da deall fod Wil Jones, Bryntirion, wedi gwella wedi'i driniaeth yntau yn ddiweddar. Anfonir dymuniadau da at bawb sy'n sâl yn y pentref.

**Pwyllgor Neuadd:** Trefnir cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa a thalentau lleol ar nos Fercher, Ebrill 20fed, yn y Neuadd Gymuned. Croeso cynnes i bawb.

**Llongyfarchiadau:** Llongyferchir Eurgain Haf ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Ryng-golegol ym Mhrifysgol Caerdydd, ddydd Sadwrn, 12 Chwefror. Enillodd y Fedal Ddrama ynghyd â'r ail wobwr yn yr un gystadleuaeth. Dyma ei chynnig cyntaf ar ysgrifennu drama. Enw'r ddrama fuddugol yw 'Brwsh a Phaent'. Dymunir pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Glenys a Ken Williams, Tremgynfi, ar ddod yn Nain a Thaid unwaith eto.

**Ymddeoliad Hapus:** Dymunir ymddeoliad hapus i Ann Jones, Ty'n Gerddi, wedi cyfnod hir o weinyddu cinio i blant Ysgol Brynrefail.

**Yr Urdd - Adran Bentrif:**

Ionawr 25: Ar Noson Santes Dwynwen daeth Ann Ifans atom i ddweud hanes Santes Dwynwen. Cafodd y plant gyfle i actio'r stori a gwneud cerdyn i'w cariad. Diolch yn

fawr Mrs Ifans am noson fywiog a diddorol.

Chwefror 1: Daeth Beryl Jones atom gyda'i pheiriant carioci. Diolch yn fawr Anti Beryl - roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Chwefror 8: Mwynhaodd pawb y cyfle i gael edrych ar fideo 'C'mon Mid-ffild'. Diolch i'r ysgol am gael benthg yr offer.

Chwefror 22: Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni yr arlunydd Islwyn Williams a Bledan yr hwyaden.

Mawrth 1: Noson Ffair Lyfrau'r Ysgol felly dim cyfarfod.

Mawrth 5: Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. Hwyl fawr i'r aelodau sy'n cystadlu.

Mawrth 8: Cyfle i chwarae pêl-droed pump-bob-ochr neu aerobics. Cofiwch wisgo dillad addas.

Mawrth 15: Gwaith llaw yng ngofal Bronwen Jones.

Mawrth 21 - NOS LUN: Bydd yr adran yn ymuno ag adran Cwm-y-glo i orffen y tymor gyda Disgo.

**Ysgol Gynradd Penisarwaun:** Yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r cyngerdd Gŵyl Ddewi a fwriadwyd ar gyfer Mawrth 1af. Cyflwr y tŵr a'r neuadd oedd yn gyfrifol am i ni gymryd y penderfyniad yma, ond fe gynhelir y Ffair Lyfrau yn yr Ysgol ar yr un dyddiad, i gychwyn am 6.30 p.m. Mae croeso cynnes i bawb droi i mewn, a mawr obeithiwn fod y nam ar y tŵr wedi ei ddatrys.

Tra'n sôn am lyfrau fe gofiwch, beth amser yn ôl, i ni fod wrthi'n brysur yn casglu vouchers W. H. Smith ar gyfer cael llyfrau darllen i'r Ysgol. Ar ôl hir ddisgwyl fe gyrhaeddodd y llyfrau o'r diwedd. Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu ar ein rhan.

Yn ddiweddar cawsom gyfle i groesawu dwy ferch ifanc o Lima, Periw, i'r Ysgol. Treuliodd y ddwy, Andrea a Christina, bawn yn yr Ysgol ac fe gawsom gyfle i'w holi am eu gwlad, cefndir, dulliau dysgu a'u diwylliant. Cafodd y plant hefyd gyfle i'w holi ac i glywed yr iaith Sbaeneg yn cael ei siarad.

Ymwelydd arall i'r Ysgol oedd Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Ddr. Barry Cennydd Morgan. Cafodd yr Esgob fynd o amgylch yr Ysgol i weld y plant wrth eu gwaith. Mawr obeithiwn y bydd yn ymwelydd rheolaidd yn y dyfodol.

**Cronfa Haematoleg:** Cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen ar nos Sul y Pasg, Ebrill 3ydd, am 7 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Arwel Jones a'r organyddes fydd Hefina Jones. Ceir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris ac Euros Williams. Gwneir casgliad at y gronfa. Y mae eisoes dros £1,000 yn y gronfa.

**Eisteddfod y Pentref:** Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Wener, 25ain Tachwedd - hwyrach na'r arfer. Os oes unrhyw un â diddordeb i fod ar y pwyllgor bydd croeso iddynt ymuno yn y cyfarfod nesaf ar nos

Fawrth, Mawrth 15fed, yn yr Ystafell Gymuned am 7.30 p.m.



Eurgain Haf, enillydd y Fedal Ddrama yn yr Eisteddfod Ryng-golegol.

## DRAENOG

Gormod ar ei feddwl mae'n siŵr, ag yntau yn llumanwr, a gohebydd a ffotograffydd mewn gêm bêl-droed yn Llanberis yn ddiweddar. Wedi cael hogia Llanbêr i sefyll yn dachus i dynnu eu llun fe sylwyd nad oedd ffilm yn y camera newydd.

MAE'R

**SAMARIAID**

YN GWRANDO,  
YN ABBEY ROAD



**BANGOR**  
354646



GWÊL Y  
LLYN

Lake View  
Hotel

**LLANBERIS**  
870422

**Prydau Arbennig  
ar gyfer partïon**

Byddai perchnogion  
a staff y gwesty yn  
falch o'ch croesawu  
ar gyfer dathliadau  
o bob math.

## BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU - GARANTID!

**CAMELOT, PENISARWAUN**  
871144 (Dydd) 871774 (nos)



**J.M.  
JONES  
A'I FEIBION**

**GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU**

**Y SGWÂR  
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol  
Cerrig o bob  
math ar gael

Ffôn:  
C'fon 672898 (dydd)  
C'fon 676285 (nos)

**GERAINT  
OWEN**

Gosodwr  
carpedi a phob  
math o lorïau  
**Cil-y-Mynydd**  
**WAUNFAWR**  
Ffôn: Waunfawr  
650552

Heliwch eich traed  
am fargen i

**SIOP  
ESGIDIAU  
GLENS**

Stryd Fawr  
**LLANBERIS**  
Ffôn: 871470





## RHWYD A GWN A 'MWNCI' gan Y Gwalch

Pan oedden ni'n trigo yn yr hen ffarm yn y dau a'r tri degau, yr oeddem wedi ein hamgylchynu gan fywyd gwyllt y corsdir a'r waen, oedd yn amrywio o gŵn dŵr i hedyddod i degeirian. Doedden ni ddim yn eu gwyllo drwy wydrau nac yn modrwyio eu coesau. Serch hynny yr oeddem yn anochel yn eu hadnabod ac yn sylwi ar eu harferion. Mor lluosog yr oeddent yr adeg honno fel na fuasai neb yn dirmad fod eu tranc mor agos.

Wrth gwrs yr oedd rhai mathau yn difrodi ein cnydau ar wahân i'r tywydd, a'r ydau oedd yn dioddef fwyaf o dymor yr hau hyd bron at y medi. Ar ôl llyfnu'r ceirch i'r cwysi byddai'r sguthuanod a'r ffesants, a oeddent yn cael eu magu ar gyfer eu saethu, yn goresgyn y caeau. Yn ddiweddarach deuai'r cwningod a'r ysgfarnogod i fwyta'r egin, ac ar ddiwedd y tymor, pan fyddai'r yd wedi magu brig, deuai'r adar yn eu holau ar ôl y grawn newydd. Yn y cyfamser, byddai'r caeau llysiau gwraidd wedi cael sylw'r cwningod hefyd. O ganlyniad roeddem yn cadw nifer yr ysbeilwyr i lawr oreu y gallem, er nad oeddem i fod i ddifa'r ffesants ar boen cael ein troi allan.

Yn y gwaith yma yr oedd gennym gynygeiriaid ar ffurf y fferetwyr\* a fyddent yn dod i lawr hefo eu rhwydi o Lanbabo, gan amlaf ar bnawn Sadyrnau: Robin Sam, Lei Bach a Frank Parry (Cariad Yw ar lafar). Byddai angen 'papur' ganddynt wedi ei arwyddo gan fy nhad i'w ddangos i'r cipar fel caniatâd, a thra yr oeddent wrth eu gwaith roedd y darn hwnnw o'r tir yn fwy na heb yn perthyn iddynt.

Roedd eu dull o ddal yn syml ond effeithiol. Gosodent rwydi ar geg y tyllau mewn gwrym neu glawdd pridd, yna gyrrant y ffured i mewn o'r tu arall. Byddai trigolion y ddaear wedyn yn dod allan ar eu pennau i'r rhwydi fel ergydion o wn. Weithiau byddai'r ffured yn cornelu cwningen yn y ddaear â'i lladd ac yn aros yno. Galwent hynny yn 'flocio', a byddai rhaid ei thurio allan yn fwy na thebyg. Gwelais hwynt wrthi aml waith ar wllth-law a sachau dros eu hysgwyddau wedi llwyr ymgolli yn eu diddordeb. Ond doess diwrnod brochus o fawr fudd, gan fod rhu y gwynt yn boddi sŵn symudiadau'r cwningod o dan y ddaear. Roedd ganddynt eu hofergoelion a'u

credoau eu hunain. Haerent fod cwningod yn dianc ynghynt pan fyddai'r lleuad ar i fyny. Roedd Frank yn cludo ei ffured ym mhoced fawr ei gesail ac yn ei galw yn 'fwnci' am ryw reswm.

Doedd gennym ni fawr o amser na diddordeb i drin ffuredi, ond byddem ar nosweithiau gwyntog, cil leuad, yn hela hefo ci a'r rhwyf fawr. Byddai'r rhwyd yma yn cael ei gosod ar draws adwy agored gyda dwy garreg ysgafn yn ei dal. Gyrrid y ci, a oedd wedi arfer â'r drefn, o gylch y cae ac os y byddai yno ysgyfarnog byddai honno yn anelu yn syth am yr adwy ac ar ei phen i'r rhwyd a fyddai yn rhyddhau ac yn disgyn amdani. Doedd dim angen ci chwim rhag iddo or-redeg yr anifail a dechrau ei chnoi cyn iddi gyrraedd y rhwyd. Pan na fyddai ysgyfarnog ar gael, roedd y ci wedi ei ddisgyblu i neidio'r clawdd wrth y pentan rhag mynd ei hun i'r rhwyd. Roedd gofyn neidio ar yr ysgyfarnog ar unwaith. Byddai rhai ohonynt yn nadu tros yr holl blwyf fel plentyn mewn crud. Roedd yna hen goel gwlad yr adeg honno fod gwaed cynnes ysgyfarnog newydd ei ladd, yn llawn haearn ac yn llesol iawn i lanc ar ei brifant i fagu cyhyrau caled. Profais y syniad unwaith neu ddwy. Os nad oedd yn llesol mae'n amlwg na wnaeth i mi fawr ddrwg chwaith.

Ond welais i ddim o'r rhwyd i ddal sofr-i'er ar waith nes i mi fynd i drigo i berfeddion gwlad Worcester. Roedd hon oddeutu pum llath ar hugain o hyd ac yn faich hyd yn oed i ddau ei thrin. Byddai'r sofr-i'er yn y gaef yn cysgu ar y ddaear yn y nos yn bentyrtau er cadw'n ddiddos, a llusgid y rhwyd ar draws y cae yn erbyn y gwynt a'i gollwng arnynt.

Fûm i erioed yn chwanog i'r dulliau yma o herwheila. Fy niddordeb i oedd y gwn. Byddwn yn mynd i'r coedlannau ar nosweithiau lloergan i saethu ffesants yn clwydo. Roedd hi'n rhy rhyfygus i'w hela yn agored yng ngolau dydd. Roedd hi'n hawdd gweld amlinelliaid o'r brigau a'r adar yn erbyn cefndir yr wybren glir. Byddent yn cysgu a'u pigau i'r gwynt, a rhaid oedd mynd i mewn i'r coed a'r awel ar eich wyneb. Ar ôl taro deryn roedd yn rhaid bod yn wylidwyrus ar y ffordd adref, ac nid oedd brys bob amser yn fantais, er i mi gofio unwaith neu ddwy fod yn falch o feddu heglau hirion.

Byddai'r hwyaid gwylltion hefyd

yn dod i noswyllo ar yr hen dyllau mawn cyn y rhew, ac yr oeddent yn hawdd i'w taro pan oeddent newydd godi oddi ar y dŵr. Mae hi'n ffaith anodd i'w chredu, fel pob gwir, ond mae'n haws lladd aderyn ar ei adain nac un yn sefyll gan fod y plu yn gwrthsefyll yr haels fel tarian.

Byddai angen croesi'r tonnenydd sigl weithiau i gael at yr hwyaid; profiad fel cerdded ar wely dŵr. Pe bai'r croen tenau yn torri fyddai yna byth wedyn arwydd o'r cerddwr na man ei fedd, fel un Carver Doone gynt yn siglen Exmoor. Mae'r syniad erbyn heddiw yn braidd fferu'r gwaed. Yn y gwanwyn a'r hydref byddai heidiau o wyddau gwylltion yn mynd heibio, a byddai un neu ddwy flinedig yn cael eu denu i lawr i orffwyso gan y tyllau mawn. Roedd rheiny hefyd yn gwneud prydau blasus.

Roedd yna farchnad barod i'r helfa mewn siop arbennig yn y dref lle na byddai cwestiynau anoeth yn cael eu gofyn. Chwe cheiniog am gwningen a rhywbeth i fyny i hanner coron am ysgyfarnog o faint, a mwy wedyn am gêm. Byddai'r fferetwyr yn gwerthu eu helfa i'r tafarnau neu yn eu cyfnewid am ddiod. Prynid cwningod gan drigolion y tai moel gan fod anifail felly cystal â gwledd Nadolig yr adeg honno i basio pryd fel rhos neu botes. Doedd y crwyn chwaith ddim yn cael eu gwastrafu pan oedd y gaeafau mor galed a chyflog mor brin, ac angen cadw traed a dwylo'r plant rhag ias y barrug.

Roedd sôn am ddulliau eraill

hefyd o ddal ffesants: fel taflu resins wedi eu mwyo mewn chwisgi iddynt i'w meddwi, neu losgi brwmstan o dan eu clwydfannau i'w mygu. Faint bynnag o goel a oedd ar hyn, welais i ddim o'r dulliau yma yn cael erioed eu mabwysiadu gennym ni na'n cydnabod.

Byddem yn dal tyrchod daear hefyd, wrth gwrs o angenrheidrwydd, hefo trapiau neu eu taflu ar yr wyneb hefo rhaw bâl os digwydd i ni fod ar gael pan oeddent yn codi, oddeutu naw y bore a thri o'r gloch y pnawn. Os yr oeddent yn dechrau mynd yn bla byddem yn gosod march fieren neu frigyn rhosyn pigog yn eu twnelau. Roeddent yn rhwygo eu ffroennau yn y pigau a chan mai gwaedwyr distans ydynt, byddent yn fuan yn trengi. Roedd yna farchnad i grwyn y rheiny hefyd. Byddai gennyf gryn ddwsinau weithiau wedi eu lledu hefo piniau ar fordyn. Dywedai'r cipar fod angen trichant i wneud côt ffwr. Daeth fy ngyrfa i fel tyrchwr i ben cyn i mi brin gael deunydd llawes!

Bellach mae'r filltir sgwâr yna a gynhaliodd gymaint o amrywiaeth gwyllt wedi ei ddatblygu yn dir diffaith, a'r fforest ffatri a'r peilonnau wedi disodli'r cornchwilog a'r giach a'r creyr. Maent wedi dod ag archwa o Stryd Coronation gam yn nes at galon cefn gwlad. Does dim bellach ar gael ond ambell i frân a'r piod afiach sydd yn prysur fabwysiadu yr arferion gwrth-natur dinesig.

(\*Mae lluniau'r hen fferetwyr, i'r sawl a fydd yn gweld, yn llyfr lluniau'r 'Eco', rhif 9.)

## BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

**Cydymdeimlad:** Cydymdeimlwn â Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Margaret Elizabeth Williams, 12 'Rallt Goch, Llanberis ar Chwefror 2il.

**Cofion:** Anfonwn ein cofion at Mrs Nellie Parry, Gwynfa, sydd wedi bod am gyfnod yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon.

**Sefydliad y Merched:** Dan lywyddiaeth Mrs Carol Houston, cyfarfu'r gangen leol nos Lun, Chwefror 21ain, yn y Festri. Y wraig

wadd am y noson oedd Mrs Anita Long, Tan yr Onnen, a chafwyd noson ddiddorol yn ei chwmni yn dangos sleidiau gyda sylwebaeth ddifyr ac addysgiadol o'i hymweliad â Papua New Guinea. Diolchwyd iddi gan Mrs Mair Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston, gan Mrs Gwenllian Edwards. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 21ain.

## MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO  
Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio  
Trin Cyrff  
H.P. ar gael

♥ Gemi ♥ Bedyddio ♥ Lloed ♥ Priodas ♥

♥ Achlusur arbennig? ♥  
♥ Ahrheg unigryw? ♥  
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU  
CAIN**

♥ Cynllunio pob samplwr  
yn ôl dymuniad ac angenion yr unigolyn.

♥ Hefyd gwniaidwaith o bob math  
gwneddi ddiad, newidiadau, ffenni, a.g.y.b.

♥ Cysylltu chi â  
MARY ELLIOTT  
Llanberis 872438

♥ Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth ♥



## THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i  
ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau  
dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu  
swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r  
teulu

Gwledd brodas

fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell  
ffitwydd

Ymlacio ym mar y  
llyfrgell



# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

**Geni:** Llongyfarchiadau i Sioned a Colin Hilton, o Tŷ Eryri gynt, ar enedigaeth merch fach, Bethan Elen, ar Ionawr y cyntaf. Dymuna rhieni Bethan ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniasant.

**Y Gymdeithas Unedig:** Cynhaliwyd y Gymdeithas ar Chwefror 8fed. Llywyddwyd gan y Parchg Gwynfor Williams. Y gŵr gwadd oedd Mr Ralph Jones a chafwyd sgwrs a sleidiau ganddo ar ei ymweliad ag ynysodd yn y Môr Tawel. Diolchwyd gan y Parchg John Pritchard.

**Capel Coch:** Yng nghyfarfod mis Chwefror o Gymdeithas Chwirydd Capel Coch a Rehoboth cafwyd amser difyr yn sôn am rai o'r darnau o'r Beibl a ddysgwyd ar y cof gan yr aelodau. Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch, ddydd Iau, Mawrth 10fed.

Bydd Dosbarth Beiblaidd yn cael ei gynnal yn festri gefn Capel Coch, am 7 o'r gloch, nos Lun, Mawrth 21. Y bwriad yw cynnal cyfarfod unwaith y mis, ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni.

Mae'r cyfarfod plant yn parhau ar bnawn dydd Mawrth wrth gwrs. Bu rhai o'r plant hynaf yn absennol ers wythnos neu ddwy oherwydd prysurdeb paratoi at Eisteddfod yr Urdd. Wedi i'r eisteddfod fynd heibio, cofiwch bod y cyfarfod plant yn parhau o hyn tan ddiwedd tymor y Pasg.

**Yr Urdd:** Bu'r plant yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn paratoi at yr Eisteddfod. Buont yn gwneud gwaith celf ac yn ymarfer yn galed ar gyfer y gân actol a'r côr. Cynhaliwyd cystadleuaeth y gân actol yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Chwefror 26. Dymunwn yn dda i'r rhai fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch ddydd Sadwrn, Mawrth 5ed.

**Cwmni Drama Llanberis:** Mae'r Cwmni yn brysur iawn y dyddiau hyn. Mae'r aelodau wedi bod yn perfformio dwy gomedi fer, 'Y Ddau Dad' a 'Yr M.O.T.' yn Llanberis, Caernarfon a Dinorwig yn ystod y mis hwn. Byddant yn teithio yn ystod y misoedd nesaf i Ben Llŷn, Ynys Môn a Lerpwl. Hefyd byddant yn cymeryd rhan mewn Gŵyl Ddrama yn y Groeslon.

**Carnifal Llanberis '94:** Yn y Pwyllgor Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd

ar Ionawr 31ain pasiwyd bod y Carnifal i'w gynnal o'r 9fed hyd yr 16eg o Orffennaf 1994. Dewiswyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Ieuan Ellis Jones; Cadeirydd: Eurwyn Thomas; Is-gadeirydd: Gareth Jones; Trysorydd: Arfon Phillips; Is-drysorydd: Arwyn Roberts; Ysgrifennydd: Alan T. Jones; Is-ysgrifennydd: Eric Baylis. Aelodau eraill y pwyllgor yw Dilys Phillips, Mairwen Baylis, Catherine Williams, Carys Hughes ac Alwyn Thomas.

**Ysgol Feithrin:** Mae'r Ysgol Feithrin yn 21 oed eleni, ac i ddathlu'r achlysur trefnwyd parti i'r plant yn festri Capel Coch ar Fawrth 1af, a gwahoddwyd Mari Gwilym yno i'w diddori. Bydd llun a'r hanes yn llawn yn yr Eco y mis nesaf gobeithio.

**Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn:** Er nad oedd y tywydd yn rhy garedig daeth nifer dda o'r aelodau i gyfarfod o'r Gymdeithas yn Eglwys St. Padarn ar nos Iau, Chwefror 3ydd. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi o dan arweiniad Mr Ralph Jones. Croesawyd y wraig wadd, Mrs Ceri Pierce-Williams, yr Ymwelydd Iechyd lleol, gan Mrs Ann Parry-Jones, y Cadeirydd. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddi ar ei gwaith yn y gymdogaeth yn edrych ar ôl iechyd y babanod, plant ysgol, pobl ifanc a'r henoed gan ddangos inni y pwysigrwydd o wneud ein gorau i gadw'n iach.

Mrs Margaret Ellis, Nant Peris a Mrs Betty Humphreys oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl, a diolchwyd iddynt hwy ac i Mrs Williams gan y Parchg Gwynfor Williams, ac ef oedd yr enillydd lwcus.

**Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn:** Enillwyr mis Chwefror yw — £35: Mrs C. Hughes, 1 Stryd Ianci (90); £25.00: Edryd Sharp, 28 Maes Padarn (145); £15: Mrs C. Lloyd, 6 Rallt Goch (86); £10: Mrs G. Roberts, Hyfrydle (48); £5: Mrs J. Jones, Peris View (155).

**Diolchiadau:**

Hoffai Gwynfor a Margaret Jones, 51 Dôl Elidir, ddiolch i bawb am y cardiau a'r geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli chwaer a brawd annwyl. Diolch yn fawr.

Dymuna aelodau Clwb Methedig Llanberis ddiolch i Carys, Marian a'r teulu, am y rhodd er cof am eu mam, y ddiweddar Mrs Menai Jones, 5 Glanrafon Bungalows, Llanberis.



Arfon Phillips, Trysorydd Pwyllgor Carnifal Llanberis, yn cyflwyno siec i Ifor Jones, cynrychiolydd Pwyllgor y Ganolfan, ac i Thomas John Roberts, cynrychiolydd Timau Pêl-droed Ieuenctid y pentref. Rhanwyd elw Carnifal '93 rhwng y Ganolfan a'r timau ieuenctid. Derbyniodd y naill a'r llall dros £600. Llongyfarchwn aelodau'r Pwyllgor ar lwyddiant y Carnifal a diolchwn am eu cefnogaeth hael i wahanol fudiadau'r pentref o flwyddyn i flwyddyn.

Dymuna Carys a Marian a'r teulu ddiolch i'r cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau a'r rhoddion a dderbyniom er cof am ein hannwyl fam, y ddiweddar Mrs Menai Jones, 5 Glanrafon Bungalows, Llanberis.

Dymuna Mrs Bessie Owen, 52 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a staff Ysbyty Gwynedd a Thyddyn Elan, Llanrug, am eu caredigrwydd a'u gofal ohoni.

Dymuna Mrs Enid Lloyd Roberts sydd yn awr yng Nghartref Bron

Eryri, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd dros y Nadolig ac ar ei phen-blwydd yn 86 mlwydd oed ym mis Ionawr.

Dymuna Mrs Clara Roberts, 'Anfield', ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl dod adref o Ysbyty Gwynedd, a hefyd am y blodau, cardiau a'r anrhegion. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu gofal tra roedd yn yr ysbyty.



**Ysgol Dolbadarn:** Yn y llun gwelir Dylan Owen a rhai o blant dosbarth Mrs Eirian Owen yn paratoi lluniau ar gyfer 'ffenestri lliw' yn yr Ysgol. Rydym yn falch o gael croesawu Dylan i weithio efo'r dosbarthiadau bob amser.

Anfonwn ein cofion at Mrs Eirian Owen sydd yn absennol o'r Ysgol oherwydd gwaeledd.

Bu dosbarth Mrs Pierce a Mrs Humphreys yng Nghanolfan yr Awyrlu yr wythnos o'r blaen yn gweld yr offer mesur y tywydd. Cawsant gyfle i weld yr hofrenyddion hefyd.

Cynhaliwyd Bore Coffi yn y Bistro gan Gyfeillion yr Ysgol a gwnaed elw o £75. Diolchir am bob cefnogaeth.

Trefniadau Blodau Sych a Ffres yn ôl eich gofyn Alwyn a Sarah Jones

**RACCA**  
**PENISARWAUN**

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch  
**870605**  
am fanylion

## TRIP I LERPWL

Beth am ddod i Lerpwl am y dydd?

Ddydd Sadwrn, Mawrth 12, bydd Cwmni Drama Llanberis yn teithio i Lerpwl i gynnal noson o ddramâu.

Mae lle i ryw 40 o bobl ar y bws. Cychwyn o Lanberis am 9.30 o'r gloch y bore, a chychwyn adref o Lerpwl tua 10 o'r gloch y nos. Y pris fydd £4 yr un.

Brysiwch i roi eich enw i Gareth Morris (870695); Ann Pritchard (871231); neu Bert Parry (871433). Y cyntaf i'r felin gaiff falu — neu gaiff deithio!



**DRAENOG**

Dwn i ddim ai dwy droed chwith ynteu dwy droed dde sydd ganddi, ond mi glywais am wraig o Lanbêr yn mynd i chwarae badminton efo un esgid o bob pâr. Rho ystyr newydd i'r term 'mixed doubles' tybed? Wrth gwrs wna i ddim ei henwi, ond teg yw dweud na welech chi'r un Colin na Terry yn mentro i gael pêl-droed wedi ei wisgo mor od, 'Gee, I'll Say no more'.



## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

**Enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr** — £40: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £25: Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan; £20: Mr T. E. Jones, Cartrefle.

**Merched y Wawr:** Nos lau, Ionawr 27, cynhaliwyd cyfarfod o dan lywyddiaeth Mrs Nan Huws Roberts. Estynnwyd croeso i aelod newydd, sef Mrs Grace Roberts, Stad Tŷ Hen, sydd wedi dod yma i'n plith i'r Waun o Awstralia lle y bu'n byw am 26 o flynyddoedd.

Y wraig wadd oedd Mrs Olwen Jones o Uned Hybu lechyd a chafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yn ei chwmni. Diolchwyd i Mrs Jones gan Beryl Jones. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Iona Williams ac fe'i henillwyd gan Heulwen Huws. Yn ein cyfarfod y mis nesaf byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Yn ystod mis Chwefror o'r Gymdeithas cafwyd sgwrs ar 'Cwm Brwynog a Chapel Hebron' gan yr Ysgrifennydd, Mr Rol Williams. Llywyddwyd gan Mrs Mary Vaughan Jones gyda Mr Eifion Glyn yn talu'r diolchiadau. Yn ddiweddarach cafwyd sgwrs gan Mr Edgar Parry, Caernarfon, ar 'Teithwyr Cynnar Eryri' gyda Mr Siôn R. Jones yn llywyddu; a thalwyd y diolchiadau gan Mr Iolo Huws Roberts. Yn y cyfarfod nesaf ar Chwefror 21 ceir noson o gystadlaethau llenyddol o dan y pennawd 'Min ar yr Awen', a daw tymor y Gymdeithas i ben ar nos Lun, 7 Mawrth, pan yr edrychir ymlaen yn fawr i glywed sgwrs y Parchedig Richard Jones, Llanellwyr (gynt o'r Waunfawr) ar gynnwys dyddiaduron cyn-Weinidog capel Bethel, y Waun, sef y diweddar Barchedig D. J. Lewis. Llywyddir gan Mr R. Gwynn Davies.

**Diolch am blygu:** Carwn ddiolch i swyddogion Capel Croes-y-waun am gael benthg y festri ar gyfer plygu'r Eco y mis diwethaf ac i'r criw ddaeth yno i blygu.

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Ann a Dean, Teras Eilian, ar enedigaeth mab bach, brawd i Dewi ac ŵyr bach i Mr a Mrs John Dawson, Bro Waun; a gor-ŵyr i Mrs G. Jones, Tref Eilian.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Geraint Griffiths, Bro Waun, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab, Owain Taliesin, i'w mherch Mandy a'i gŵr Ceirion.

**Dyweddïad:** Llongyfarchiadau i Sharon Jones, Ael-y-bryn ar ei dyweddïad â Meirion Owen o Fynydd Llandegai.

Llongyfarchiadau hefyd i Nan, Goedwig, a John Carlross, Gilfach, ar eu dyweddïad.

**Dathlu Pen-blwydd:** Llongyfarchiadau i Mrs Lizzie Pierce, 24 Tref Eilian gynt, ond sydd yn awr yng nghartref preswyl Gwynfa, ar dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch Mrs Pierce.

Llongyfarchiadau cynnes a phob dymuniad da i Mrs E. Parry, Rhes Eilian, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fawrth y cyntaf. Gobeithio ei bod yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Adref o'r Ysbyty:** Croesawn Mr George Grindley, Fairfield; Mrs E. C. Williams, Dwyfor; Mrs Mildred Beech, Richard a Susan Beech, Bronallt; Caryl Ann, 2 Ael-y-bryn; Mrs Menna MacDaid, Tremarfon, Groeslon a Danny Pitman, 1 Ael-y-bryn, adref ar ôl iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion hefyd at Esyllt Dafydd, Glanfa, a dorrodd asgwrn yn ei llaw pan syrthiodd oddi ar ei beic.

**Ymdeoliad:** Dymunwn pob hapusrwydd i Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel gofalwraig yr Ysgol.

**Cydymdeimlo:** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen, ac at Carys, Glenys a Nerys yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl.

Cydymdeimlwn â Mr Raymond Williams, Cross, yn ei brofedigaeth o golli brawd.

Fe gydymdeimlwn hefyd â Mr Eifion Glyn, Plas Bodhyfryd, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

**Diolchiadau:**

Dymuna Mrs Annie Thomas, Gilfach, a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r meddygon teulu a staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal tyner a charedig. Diolch am y rhoddion o £550 tuag at Gronfa Offer Meddygfa Waunfawr.

Dymuna Mrs Alla Williams, Monfa, Eilian Teras, ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad drwy alwadau ffôn a chardiau. Buont yn gymorth iddi yn

ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Dymuna Ffilyr Llywelen, 23 Tref Eilian, ddiolch o galon i Mam a Dad, teulu, perthynasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl arian, anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr iawn i Anti Katie am roi y cyfarchion ar y radio. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Cartref Newydd:** Dymunwn yn dda i'r teuluoedd hynny sydd wedi ymgartrefu yn ein plith yn ystod y misoedd diwethaf; ac i'r teuluoedd sydd wedi symud i gartrefi newydd o fewn y pentref. Pob hapusrwydd ichi yn eich cartrefi newydd.

**Llongyfarchiadau** i ddisgyblion Ysgol Isaf Syr Huw Owen a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol, ac i Lowri Glyn am ennill tarian llefarwr yr Eisteddfod.

## LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

**Merched y Wawr:** Croesawyd Mrs Rhianwen Huws Roberts gan y Llywydd, Meryl Green, i danlinellu 'Lle'r Ferch Mewn Llenyddiaeth'. Cafwyd cyfeiriadau o'r Beibl, Canol Oesoedd a chyfoes. Diddorol oedd canfod mai dim ond saith o ferched sy'n cael eu cronicleo yn y *Bywgraffiadur 1949-51*.

Ochenaid o ryddhad a glywid pan ddarlennwyd 'Deg Gorchymyn Tad i'w Ferch' allan o *Trysorfa'r Plant* a difyr oedd y detholiadau o'r llyfr *Newid Ffedog* — hanes merch ifanc o forwyn yn newid ei ffedog am ffedog nyrs.

Darlennwyd am ferched enwog o'r casgliad *Merched ein Beirdd* a gyflwynwyd i Fudiad Merched y Wawr gan Mair Elvet Thomas ar achlysur dathliad y Mudiad yn 25ain oed.

Diolchwyd i Rhianwen Huws Roberts am noson ddiddorol gydag ôl ymchwil mawr, gan Mary Roberts.

Dymunir pob bendith a hapusrwydd iddi fel Llywydd Cenedlaethol y Mudiad y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchwyd Nan, Mary, Pat, Julie ac Anwen am eu llwyddiant gyda Bowlio Deg. Diolchwyd iddynt am gynrychioli'r gangen.

Rhybuddiwyd ni i gyd i gloi ein ceir a hynny os ydym ond yn picio i'r tŷ am eiliad gan fod lladrata ceir, ac o oddi mewn i geir, ar gynnydd mawr a hynny yn llythrennol wrth ein drws. Dymunir pob llwyddiant i blant yr ardal sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Ein cangen ni fydd yn gyfrifol am y lluniaeth ysgafn a hynny am bris rhesymol.

Enillydd y raffl oedd Ann Lloyd.

Diolchwyd i Nan, Meirwen a Menna am wneud y baned gan Bethanne Williams.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty Stone's, Caernarfon, gyda phryd tri chwrs, ar

Mawrth 8fed, am 7.30 p.m. Am fanylion pellach cysyllter â Carys, Meryl neu Gwenda.

**Yr Ysgol Gynradd:** Croeso'n ôl i Miss Lynch at blwyddyn 2 a ffarweliwn â Mrs Roberts am gyfnod byr.

Trwy drefniant Partneriaeth Addysg Busnes Gwynedd daeth Mr Ben Davies, Rheolwr Rhanbarth gyda'r Rheilffyrdd Prydeinig, i sgwrsio â disgyblion Bl. 6 a 7 am ei waith. Mae'r ddau ddosbarth yn astudio 'Teithio' y tymor hwn.

Enillwyr Clwb Cant mis Chwefror oedd — 1, Dafydd Owen, 21 Glanffynnon; 2, Sofka Morris, Femlia; 3, Shân Burston, Bryniau Fannog; 4, Rachel Williams, Isallt; Brynrefail; 5, Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo. **Yr Urdd:** Pob hwyl i bawb o'r plant sy'n cystadlu yn y ddwy Eisteddfod Cylch y mis hwn.

Fore Sadwrn, Mawrth 12fed, rhwng 9.30 a 12.00 bydd Sêl Cist Car ar fuarth yr ysgol i godi arian tuag at gostau Eisteddfodau'r Urdd. Dewch yn llw.

**Diolch:** Dymuna Oswald a Jean Davies, Rhyd-y-delyn, ddiolch i'w teulu, cymdogion a chyfeillion am y croeso a'r anrhegion maent wedi eu derbyn ar ôl dod adref o Awstralia. Mae cynhesrwydd yr ardal yn gwneud i fyny am y tywydd oer, ar ôl y gwres a'r tân mawr a gawsom. Mae Tom Roberts (Twm Ty'r Ardd gynt) yn anfon ei gofion at bawb. Er nad yw ei iechyd yn dda mae ei feddwl, a'i Gymraeg, yn berffaith.

### GOHEBYDD LLANRUG

Mae angen gohebydd newydd ym mhentref Llanrug.

Os ydych yn barod i wneud y gwaith, rhoch wybod i'r Golygyddion neu i un o'r Swyddogion ar unwaith.

### W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANOLOG  
Pant Tirlion, Llanrug  
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr  
Nwy  
Cofrestredig  
Corgi



Aelod o'r  
Association of  
Mechanical  
Services  
Contractors

Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr



### ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau  
o bob math ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau  
gwireiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086  
Caernarfon — Llanberis  
Ffôn/ffacs: 0286 672619  
Richard S. Humphreys

### Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen  
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch  
cartref yn ardal Llanrug

### Wavell Roberts

CIGYDD

London House  
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref, cigoedd parod  
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist  
MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!



## DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Y Gymdeithas Undebol:** Bellach mae tymor y Gymdeithas wedi dod i ben ac mae ein dyled yn fawr i'r swyddogion am eu gwaith o drefnu rhaglen amrywiol a diddorol iawn ar ein cyfer fel pentrefwyr dros fisoedd y gaeaf. Cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mr Huw Jones, Llanwnda, ar y 3ydd o Chwefror ac yna tro Cwmni Drama Llanberis oedd diddori'r aelodau drwy berfformio dwy ddrama fer ar y 17eg o Chwefror. Yn sicr dyma gwmni drama sy'n haeddu ein cefnogaeth fel ardal ac maent i'w hedmygu am lwyddo i sicrhau theatr iddynt eu hunain yn Llanberis. Hefyd erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd yr aelodau wedi ymweld â Choleg Pencraig, Llangefni, ar gyfer cinio Gŵyl Ddewi ar brynhawn dydd lau, Mawrth 3ydd. Gobeithio iddynt gael pryd gwerth chweil.

**Clwb Hwyl Hwyr:** Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn y Ganolfan ar nos Fercher, Chwefror 9fed. Sicrhawyd elw ariannol o £35.40 a bydd yr arian yma yn cael ei wario ar brynu llyfrau, ac ati. Hoffai'r plant, eu rhieni a'r swyddogion ddiolch i bawb am eu presenoldeb ar y noson ac am gyfrannu gwobrau i'r raffl. Cafwyd eitemau o ganu ac adrodd gan y plant cyn diweddau gyda phawb yn ymuno mewn canu tair emyn gyfoes. Yn ôl yr ymateb a gafwyd, cafodd pawb amser wrth eu bodd. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Clwb yn paratoi ar gyfer Gŵyl y Pasg a gobeithir cynnal gwasanaeth syml a phwrpasol yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Sul, 27ain o Fawrth am 4 o'r gloch. Bydd paned i ddilyn ar ôl y gwasanaeth a bydd y casgliad yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.

### Diolchiadau:

Dymuna Mrs Dilys Williams, Bron Eilian, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati ar ôl colli mam annwyl yn ddiweddar.

Dymuna Miss Morfudd Jones, Bryn Hyfryd, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a chydymdeimlad yn ei phrofedigaeth o golli ei mam annwyl, Mrs Dora Jones. Hefyd diolch am y lluo cardiau a llythyrau ac yn arbennig am y rhoddion ariannol er cof am ei mham. Bydd £250 yn cael ei

drosgrlwyddo i Gronfa Ymchwil y Galon. Diolch arbennig i staff nyrsio a gofal Cartref Penisarwaun am eu gofal tyner a diflino dros y blynyddoedd diwethaf ac yn arbennig yn ystod yr wythnosau olaf. Diolch yn fawr i bawb.

Ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn naw deg oed fe dderbyniodd Mrs Mary Thomas, St Teilo, Bethel, nifer fawr o anrhegion a chardiau. Gan fod y rhain yn rhy niferus iddi ddiolch yn unigol fe garai fynegi ei gwerthfawrogiad a'i diolch cynhesaf drwy gyfrwng yr Eco. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Pwyllgor y Ganolfan:** Cyfarfu pwyllgor y Ganolfan ar nos Lun, Ionawr 31, o dan gadeiryddiaeth Karen Jones. Er mai nifer siomedig iawn oedd yn bresennol yn y cyfarfod trafodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r pentref. Penderfynwyd nad oedd modd symud ymlaen ynglŷn â mater cael tai henoed yn Ninorwig heb wybod faint o angen sydd amdanynt. Cytunwyd i anfon llythyr at Gyngor Sir Gwynedd yn diolch iddynt am eu cefnogaeth gwerthfawr mewn adfer gwasanaethau bysus i Ddinorwig yn ddiweddar. Hefyd soniwyd fel yr oedd tri aelod o'r pwyllgor wedi cyfarfod swyddogion Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir i drafod y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r llyfogydd ar wyneb ffordd Gallt y Foel. Cafwyd cadarnhad bod y mater yn cael sylw ond fod yna anhawsterau ynglŷn â gweithredu oherwydd cyfyngiadau ariannol. Hefyd fe dynnwyd sylw at y pŵll mawr o ddŵr sydd ar wyneb y ffordd yn yr Allt Ddu. Eto fe gafwyd addewid y bydd y mater hwn yn cael sylw buan. Diolch i'r ysgrifenyddes am drefnu'r cyfarfod ac i'r aelodau am adrodd teimladau'r pentrefwyr wrth swyddogion y Cyngor Sir. Mawr obeitir y bydd y materion hyn yn cael sylw yn fuan.

**Eglwys St. Mair:** A ninnau yng nghanol tymor y Grawys dyma'r adeg o'r flwyddyn y cesglir arian tuag at waith Cymorth Cristnogol. Fe ddylai pawb fod wedi derbyn blychau cenhadol erbyn hyn. Dylid eu dychwelyd erbyn Sul y Blodau (Mawrth 27ain). Deellir i ymweliad Esgob Bangor â'r plwyf, ar ddydd Llun, 14eg o Chwefror, fod yn llwyddiant mawr. Diolch i Mrs M. Fleming am drefnu i'w groesawu i Eglwys St. Mair. Bydd y gwaith o

lanhau'r Eglwys am fisoedd Mawrth ac Ebrill yng ngofal Mrs D. Williams, Bron Eilian, a diolchwn ymlaen llaw iddi am ei gwaith. 'Rydym yn falch o ddeall fod Mrs A. Thomas, 1 Bro Elidir, yn well ar ôl cael codwm yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs E. Lynes, Snowdon View, yn ei phrofedigaeth ddiweddar.

**Croeso Gartref:** Da cael croesawu Margaret J. Jones, Foel, gartref ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

**Teyrnged:** Diolch i Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog, am y deyrnged ganlynol i'r ddiweddar Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd.

Bu mis Ionawr yn greulon i ni eleni eto yn Sardis yn mynd ag aelod arall, sef Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd, oddi arnom. Bu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar Ionawr 28, yn 87 oed.

Er i ni golli ei chwmni o'r capel ers peth amser daliodd ei diddordeb yn mhethau'r capel, ac â'r capel y cysylltwn hi bob amser. Ai hynny yn ôl i ddyddiau plentyndod, a chofio ei gweld hi a'i thad yn mynd heibio'n tŷ ni yn fuan wedi un o'r gloch ar brynhawn Sul ar eu ffordd i Gapel Fachwen, a'i chofio wedyn, ar ôl iddi briodi, yn mynd heibio'n tŷ ni eto, ond efo Myrddin, ei phriod, am Gapel Sardis. Ei chofio hefyd yn cymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd y capel — mewn parti adrodd a phasant, a hithau wedi gofalu dysgu ei rhan yn drwyadl; mewn parti canu a llais alto clir ganddi a phob un o'i nodau'n sicr; yn paratoi at Gyfarfod Ysgol a Chymanfa Ganu. Bu'n athrawes Ysgol Sul ar ddosbarth o

ferched a bob amser wedi gofalu paratoi'r wers yn ofalus ar eu cyfer. Roedd yn wraig yr edrychai pawb i fyny ati gyda pharch mawr.

Roedd hynny'n amlwg ddydd ei hangladd ar Chwefror 3, yn Sardis, pan ddaeth torf luosog er gwaethaf y tywydd stormus i'r gwasanaeth i ffarwelio â hi. Ei gweinidog, y Parchg Olaf Davies a arweiniodd y gwasanaeth, a'i chyn-weinidog, y Parchg Ifor L. Williams a dalodd y deyrnged iddi, a chymryd fel testun eiriau Paul, 'Ymhob dim rhwch ddiolch,' a diolch am gyfraniad arbennig Dora Jones i'w theulu, diolch am ei chyfraniad gwerthfawr i fywyd Sardis, ac i'w hardal, diolch am hyfrydwch a sglein ei chymeriad, a diolch am ei hurddas arbennig o fonheddig.

Diolchwn ninnau am fod wedi cael ei hadnabod.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Morfudd a'r teulu yn eu profedigaeth.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna  
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

**Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yng Nghapel y pentref, am 2 o'r gloch, yn ystod mis Mawrth:

6: Parch S. O. Hughes, Bethel  
13: Gweinidog, Parch W. R. Williams  
20: Parch Gareth Maelor, Dinas  
27: Gweinidog, Parch W. R. Williams  
**Sioe'r Pentref:** Cyn diwedd y gaeaf beth am droi eich dwylo at yr Adran Grefft yn Sioe'r Pentref. Gwelir rhest o'r testunau ar hysbysfwrdd y pentref.

## Aled Jones

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Plymio

4 Bryn Eglwys  
PENISARWAUN  
Ffôn Llanberis  
871047



Yswiriant Car neu  
Yswiriant Tŷ  
Gadewch i ni  
Roi pris i chi.

**TARIAN**  
6 Stryd Bangor,  
Caernarfon  
Ffôn: (0286) 677787

## GORSAF BETROL



## BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo  
Cylchgronnau ● Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd ● Wyau  
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

## GWASANAETH DEINTYDDOL

O DAN Y GWASANAETH IECHYD  
**DYLAN THOMAS**

B.D.S. (Cymru), DEINTYDD

Y DDEINTYDDFA  
39 STRYD Y CAPEL, CAERNARFON  
Ffôn: (0286) 672914



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

**Diolch:** Dymuna Dafydd Llywelyn, Tan-y-buarth, ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion am eu dymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

**Clwb 200 Y Neuadd:** Enillwyr gwobrau am fis Ionawr oedd — £20: Miss Caron Lowri Jones, Caernarfon (209); £10: Mr Walter Griffiths, Ivy Cottage (189); a £5 yr un i Mrs Anne C. Williams, Ty'n 'Rardd (153); Mrs Elizabeth Williams, Tyddyn Oer (92); Mrs Elinor Jones, 22 Cremllyn (139); Mrs Nora W. Parry, 11 Tan-y-buarth (4); Mr Gwyndaf Williams, 1 Tan-y-cae (107); Mrs Mary Williams, Awelon (174); Mr Emrys Read, 5

pentrefwyr wedi sôn y bydden yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth am wasanaethau'r mis yn yr eglwysi. Am fis Mawrth mae'r trefniadau fel a ganlyn:

**Y Cysegr** (10 a.m. a 5.30 p.m. gyda'r Ysgol Sul am 10 a.m.)

6: J. O. Roberts

13: Parchg R. Gwilym Hughes

20: Parchg Llew Madog Jones

27: Parchg W. R. Williams

**Bethel** (10 a.m. a'r Ysgol Sul am 11 a.m.)

6: Parchg Gwynfor Williams


13: Gwasanaeth Sul y Mamau

20: Parchg Gwynfor Williams

27: Undebol y Y Cysegr

**Saron** (2 p.m.)

Methais a chysylltu â Ysgrifennydd y



Trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon 'Noson o Fathemateg'. Bu llawer o bendroni dros y dulliau newydd — yn amlwg, mae 'syms' ers talwm wedi hen newid. Er y crafu pen cafwyd cryn bleser ac agoriad llygaid.

Cefn Cynrig (89); Mrs Mair Price, 5 Tan-y-ffordd (49).

**Clwb 100 Yr Ysgol Gynradd:** Mae enillwyr gwobrau dau fis i'w cyhoeddi y mis yma. Enillwyr mis Ionawr oedd — £20: Janet E. Jones, 10 Y Ddôl (37); £15: Dylan Hughes, 11 Stad Eryri (26); £10: Nora Parry, 11 Tan-y-buarth (60); £5: Iona Williams, Alun House (94); £3: Dorothy Williams, Bro Dirion (89). Enillwyr mis Chwefror — £20: Iolo Davies, Glan Gors (4); £15: Idris Morris, Y Fachell (70); £10: Richard Parry, 4 Rhos-lan (56); £5: Parchg W. R. Williams, Bryngwyn (65); £3: Ellen Jones, 14 Tan-y-buarth (27). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Gwasanaethau'r Mis:** Mae nifer o'r

Cyhoeddiadau y mis yma ond fe gawn wybodaeth am gapel Saron hefyd erbyn mis Ebrill.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn neuadd yr ysgol gyda Eirlys Williams yn llywyddu. Croesawyd y wraig wadd, Pat Jones, Brynrefail, un adnabyddus iawn i'r Gangen, a chafwyd noson ddifyr yn ei chwmmi yn dangos sut i osod blodau sych mewn basgedi. Gwnaeth bump basged a phob un mewn gwahanol liw ac fe gyflwynwyd yn fel gwobr raffl. Diolchwyd iddi gan Ann Elis.

Llongyfarchwyd Dafydd Llewelyn, mab Sheila Roberts, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed; ac hefyd Eirlys a Brian Sharpe ar ddathlu eu



Am y drydedd flwyddyn yn olynol, llwyddodd tîm pêl-droed pump-bob-ochr yr Urdd, Bethel, i ennill y gystadleuaeth i Adrannau Pentrefi, yng Nghylch Eryri. O gofio'r holl gemau, mae digon o egni i'w weld ar ôl!

priodas berl. Dymunwyd yn dda i'r plant fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd.

Enillwyd y fasedged flodau gan Jacqueline Jones a raffl y mis gan Ann Elis.

Bydd y Gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn yr Ysgol gyda lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan y pwyllgor am bris o £2. Nia Griffith fydd yn diddanu. Hyderwn y bydd yr holl aelodau yn gallu bod yn bresennol.

**Yr Urdd:** I baratoi'r aelodau ar gyfer yr Eisteddfod Cylch o dan 12 oed fe gynhelir Noson Goffi, gyda phlant yr Adran yn cymryd rhan mewn canu, llefaru a dawnio, ar nos Wener, Mawrth 4ydd, yn y Neuadd Goffa.

Dewch i gefnogi ieuencid y pentref. Pris mynediad yw 50c. a'r tocynnau ar gael gan y plant.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Nos Fawrth, Chwefror 15, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, a lanwodd fwllch ar fyr rybudd oherwydd methiant y siaradwr gwreiddiol i ddod atom. Bu Mr Hughes yn sôn am gymeriadau a dywediadau ffraeth o gyfnod ei blentynod yn Nyffryn Ogwen. Diolchwyd i Elwyn gan y Parchg Gareth Alban.

Bydd swper y Gymdeithas eleni yn Nhŷ Golchi ar nos Fawrth, Mawrth 8fed. Dylai pawb sydd yn dymuno dod roi eu henwau i Mr Goronwy Jones mor fuan ag sydd modd.

**Am Wasanaeth  
Fframio Lluniau  
Tystysgrifau  
Tapestri**

am brisiau rhesymol

**ELWYN**

**PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Sadwrn

10.00 — 4.30

**Ffôn: Llanberis**

**870922**

**GERDDI  
GLASCOED**

(Ger Capel Glascoed)

**PENISARWAUN**

I'ch gardd  
fod ar ei gorau  
galwch heibio  
neu ffoniwch

**870453**

**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: Llanberis 870253**

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**

(Eric Morris)

**Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858**



CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

- 1. O gwmpas dechrau'r wythnos, bydd un o gampweithiau Saunders yn berthynol (5)
- 4. Fedrwc chi ddim gwneud hyn â'ch dwylo wrth godi'ch sanna (5)
- 10. Mae hwn yn dod o weld iâr wedi drysu (7)
- 11. Offeryn nid yn anhebyg i un Nerol (5)
- 12. Gwyddai Cynan fod Siencyn yn - ---- (1,4)
- 13. Wele ddŵr yn Y Garn rhwng Braich a chledr (7)
- 15. Doedd neb efo Wil yn mynd o Abergwaun i Gaerdydd (4)
- 17. Cymdeithas, neu glwb i'r bobol glyfar (5)
- 19. Uchelfaon adar sydd bellach wedi diflannu o'r ardal (5)
- 22. Gerwinder ddaw o grafu'r gwegil (4)
- 25. Yn sicr, does dim llawer o hwn rhwng 10 ar draws a'i elyn (7)
- 27. Y cerbyd a ddefnyddir gan ymwelwyr o bellter mawr? (5)
- 29. Brawiau (5)
- 30. Y stad o fod yn ymestyn ymhell (7)
- 31. O regi mewn unrhyw ffurf gall pethau agor (5)
- 32. Deian ydi'r brychl (5)

I LAWR

- 2. Cyfrwng blas ar y bore (5)
- 3. Yn llawn dagrau (7)
- 5. Defnyddio neu gyfarwyddo (5)
- 6. Mae'r rhain yn cymysgu pwyso i'r cwsmeriaid (7)
- 7. Cartrefi ambell berchennog camel neu blant bach Baden-Powell (5)
- 8. Yr hyn na wneir i lofruddion bellach (5)
- 9. Peri anrhefn, neu wasgaru (5)
- 14. Tawch dŵr berw sy'n gyrru llongau mawr (4)
- 16. Nid agen yn wirl (4)
- 18. Yr hyn sy'n cyferbynnu yn yr Almaen i'n 25 ar draws ni (7)
- 20. Nid yfwyr gwin fel y 10 ar draws, ar wirol di-liw mae'r rhain yn meddwi (7)
- 21. Ceir un da yn y ffurfafen, ac fe gysylltir un gwael â moch (5)
- 23. Cyflwr neu osgo meddwl (5)
- 24. Mewn parau, daeth yr anifeiliaid allan, yn unigol, byddwn ni'n mynd i mewn (2,3)
- 26. Mae Arthur yn ofnadwy pan mae'n drysu (5)
- 28. Allan o hances y dyn daeth colomen yn ddisymwrth (5)

CROESAIR MAWRTH



Bu'r ymateb i groesair mis Chwefror yn dda iawn, gydag un-ar-ddeg cynnig llwyddiannus, a chwech yn meth â un cliw yn unig. Un ar draws oedd y maen tramgwydd, a'r arf boreol sy'n perthyn i Glan ydi RASAL, gan fod

hwnnw'n eillio tra fo Reg, ei ragflaenydd yn y Deri Arms â barf yn cuddio'i wyneb. Ymysg yr atebion anghywir fe gynigiwyd PANAD, PADALL, CADACH, FFAGAN a PADARI!

O'r un-ar-ddeg ymdrech cywir un lorwerth a Joan Williams, Rhos-lan, Sgwâr Uxbridge, Caernarfon, ddaeth allan o'r het. Gobeithio y daw hwn eto â llawer o bleser i chi. Gyrrwch yr atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn 21 Mawrth.

DIOLCH

Dymuna Miss Mary Owen ddiolch o galon i'w thelu, cymdogion, ffrindiau ac i Mrs D. Jones, am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd tra bu'n yr ysbyty yn ddiweddar ac wedi iddi ddod adref. Diolch i chwi i gyd.

Dyddiadur y Mis

MIS MAWRTH

- 4 Gwener. **BETHEL:** Yr Urdd. Noson Goffi yn y Neuadd Goffa. **DEINIOLEN:** Cyfarfod i ddathlu Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd, yn Ebeneser am 2 o'r gloch.
- 5 Sadwrn. **LLANRUG:** Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.
- 7 Llun. **LLANRUG:** Undeb y Mamau, yn Hafan Elan. **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas — Y Parchg Richard Jones.
- 8 Mawrth. **PENISARWAUN:** Yr Urdd. **BETHEL:** Swper :Gŵyl Ddewi. **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Undebol yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch.
- 9 Mercher. **BETHEL:** Cyfarfod Dosbarth Padarn y Presbyteriaid — Cyfarfod Gweddi yng Nghapel y Cysegr am 7 o'r gloch.
- 10 Iau. **LLANBERIS:** Cymdeithas y Chwiorydd yn y Capel Coch am 2 o'r gloch.
- 11 Gwener. **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — Cinio Gŵyl Ddewi.
- 12 Sadwrn **LLANRUG:** Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol Gynradd 9.30-12.00.
- 14 Llun **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwysi.
- 15 Mawrth **PENISARWAUN:** Yr Urdd — gwaith llaw.
- 21 Llun **LLANBERIS:** Dosbarth Beiblaidd, Capel Coch am 7 o'r gloch. **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched. **PENISARWAUN:** Yr Urdd — disgo gydag Adran Cwm-y-glo.
- 27 Sul **DINORWIG:** Clwb Hwyl Hwyr. Gwasanaeth y Pasg yn y Ganolfan am 4 o'r gloch.
- 28 Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Parchg W. R. Williams.

RHODDION

£10: Di-enw, Cwm-y-glo.  
£5: Miss Morfudd Jones, Bryn Hyfryd, Dinorwig; Mrs Mary Thomas, St Teilo, Bethel; Mrs Gwyneth Hughes, Glanybarlwyd, Tanygrisiau; Andrea Paterson, 1 Bryntirion, Penisarwaun; Di-enw, Waunfawr; Mrs Enid Lloyd Roberts, Bron Eryri; Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Carys a Marian, 1 Stryd Ianci, Llanberis; Mrs Mary Owen.  
£3: Mr a Mrs R. Parry, 7 Hafan

Elan, Llanrug; Mrs Nelli Hughes, Gwyrfa Terrace, Deiniolen; Mrs G. Thomas, 24 Cae Carreg, Caernarfon; Mrs Bessie Owen, 52 Maes Padarn, Llanberis.  
£2: Dewi a Sharon Jones, 11 Rhes Faenol, Deiniolen; Gwyn, Einir ac Elfed, Rhiwlas (gynt o Pentre Helen, Deiniolen); Colin a Sioned Hilton, Lerpwl; Clwb yr Henoed, Llanberis.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

YR ECO'N DIOLCH

A ydych chi yn un o'r cannoedd sydd wedi cyfranu at lwyddiant yr Eco dros y 18 mlynedd diwethaf drwy werthu, dosbarthu, hel newyddion, ysgrifennu, tynnu lluniau, plygu, ac ati. Mae'r Eco yn awyddus i ddiolch i chwi drwy eich gwahodd i gyfarfod arbennig yn Llanberis ar Fai 18fed eleni. Dylai fod yn noson i'w chofio.

Cyn cwblhau'r trefniadau mae angen rhyw syniad o'r niferoedd tebygol i wneud yn siŵr bod gennym le digon mawr! Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn dod i'r noson arbennig hon gofynnir i chwi gysylltu â'r golygyddion neu unrhyw un o'r swyddogion eraill erbyn Mawrth 18fed.

Linda Morris

GWASANAETH TRIN GWALLT  
YN EICH CARTREF  
1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf  
LLANRUG. Ffôn: 678857



# CHWARAEON

## RHEDEG — AM HWYL A THLYSAU



Mae'n siŵr bod athletau — neu redeg beth bynnag — yn un o'r campau sydd ar gynydd yn y fro. Y mae traddodiad cryf ar y trac a thraws-gwlad wedi bodoli yn Ysgol Brynrefail ers nifer o flynyddoedd. Y mae twf, a llwyddiant, Clwb Eryri Harriers yn un o ddatblygiadau mwyaf cyffrous byd campau'r ardal. (Braf yw nodi fod Cyngor Arfon yn trafod, unwaith eto, y posibilrwydd o adeiladu trac o safon ar feysydd chwarae y Brifysgol yn Nhreborth.)

Ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf fe gynhaliwyd Pencampwriaeth Trawsgwlad Gogledd Cymru yn Wrecsam ac fe aeth pump o redwyr ifanc o Lanberis yno i gystadlu. Yn y ras i enethod o dan 11 oed yr enillydd oedd ELIN HARDING — tipyn o gamp. Yn yr un ras fe ddaeth SARAH JONES yn 12fed. Yn y ras i fechgyn o dan 12 oed llwyddodd GARETH JONES i orffen yn drydydd. Mae'n dweud llaewr am ddycnwch a phenderfyniad Gareth ei fod wedi mynd heibio nifer o redwyr yn y 100 medr olaf. Yn y ras i fechgyn dan 13 oed gorffennodd ALWYN JONES yn 13eg — safle da o gofio'r safon. Am yr eildro yn olynol llwyddodd ALUN VAUGHAN i ennill y ras i fechgyn o dan 15 oed. Y mae Alun yn sicr yn gwneud enw iddo'i hun ac yn amlwg yn dilyn yn nhroed Colin Jones. Onid yw camp y plant hyn yn glodwiw — pum rhedwr a dau bencampwr. Gwych! Gall y pentref yn sicr ymfalchïo yn eu llwyddiant.

Unwaith eto denodd ras mini-

marathon Porthaethwy nifer o redwyr lleol o bob oedran. Aeth wyth o redwyr o bentref Bethel yno i gystadlu yn y ras 2.8 milltir a diolchwn i Dafydd hefyd am ei arwiniad a'i barodrwydd i helpu'r ieuencid. Mae plant gwerth sgwennu amdanynt ym mhob pentref onid oes!



## TLWS Y MIS



Bu ieuencid Llanberis o dan y chwydd wydr yn ngholofnau'r Eco yn ddiweddar a braf yw cofnodi cyfraniad gwerthfawr un o'r ieuencid hynny. LLIFON OWEN yw 'dyn y cymorth cyntaf' i dîm pêl-droed Llanberis. Ac yntau ond yn y bedwaredd flwyddyn yn Ysgol Brynrefail mae'n sicr mai ef yw un o'r ieuengaf yng ngogledd Cymru sy'n gwneud y gwaith pwysig hwn. Y mae'n dilyn ôl troed ei dad gan iddo yntau wasanaethu fel 'doctor dŵr' Llanber. Nid olyniaeth yn unig sy'n cyfranu safle Llifton gan iddo dros gyfnod o amser fynychu cyrsiau Cymorth Cyntaf Urdd St. Ioan. Y mae Llifton yn deall y gwaith. Am nifer o resymau mae Llifton yn enghraifft dda o gyfraniad a her gwirfoddol ac mae'n braf cael

## AR LAN YR AFON

gyda Huw Hughes

Wrth edrych ymlaen i ddechrau tymor newydd teg yw bwrw cipolwg sydyn yn ôl ar dymor 1993. O ran y Seiont a'r Llyfni bu'n dymor llwyddiannus ynglŷn â'r nifer o eogiaid a ddaliwyd. Rhaid mynegi pryder ynglŷn â gallu'r Gwryfai i gynnal pysgod mudol. Y prif reswm am hyn, yn fy marn i, yw'r canran uchel o'r dŵr sy'n cael ei dynnu o Cwellyn i ddisychedu trigolion Môn.

Yn ystod '93 gwelwyd gwelliant sylweddol yn nifer y sewin yn nyfroedd y Llyfni. Roedd hyn yn galonogol iawn o gofio'r prinder amlwg o'r pysgod bywiog yma ers 1987. Gobeithio ein bod yn gweld cysondeb yn y gwelliant yma, ond bydd rhaid gweld gwelliant ar y Seiont cyn dod i benderfyniad pendant.'

Mae'r hen broblem o lygredd yn dal i boeni'r Gymdeithas. Yn wir, mae'r Gymdeithas wedi dwyn achos yn erbyn Dŵr Cymru yn eu cyhuddo o achosi llygredd yn nyfroedd Padarn. Mae gwaith ymchwil gan Goleg Prifysgol Bangor yn dangos yn glir os na wneir gwaith ar frys i dynnu'r 'phosphates' o waith carthffosiaeth Llanberis yna fe welir newid sylweddol ym mhurdeb cyfansoddiad y llyn. Y mae'r arwyddion 'DIM NOFIO' ger y maes parcio yn Llanberis yn awgrymu bod rhywbeth o'i le. Ers dwy flynedd bu'r Gymdeithas yn casglu'r dystiolaeth ond eto rhaid bod yn aniddig ynglŷn â'r difaterwch a ddangosir yn lleol i'r mater yma.

Wedi'r bocses sebon — edrychwn ymlaen at '94. Mae'r Gymdeithas yn mentro ymlaen yn hyderus. Y mae'r aelodaeth — gan gynnwys ieuencid — yn prysuro tuag at y 400, sydd yn gynydd sylweddol.

## DYMUNIADAU GORAU

Nid oes unrhyw beth gwaeth yn ystod gêm bêl-droed na chwaraewr yn torri ei goes. Yn anffodus dyna a ddigwyddodd i ddau o chwaraewyr y cylch yn ddiweddar. Tra'n chwarae i dîm Llanrug y torodd Alun Williams, Bethel, ei goes. Yr oedd yr anaf i David Philips o Benisarwaun yn fwy difrifol. Rhoddodd David wasanaeth da i nifer o dimau'r ardal, ac ar ddiwedd gyrfa fel petai, y daeth yr anaf drwg hwn i'w ran. Roedd yn chwarae i Ddyffryn Nantlle yn erbyn Llansantffraid mewn gêm gwpan. Aethpwyd a David i Ysbyty Gobowen ac yno y mae o hyd. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddau.

Bydd y tâl aelodaeth am eleni i drigolion lleol yn £59 — os telir cyn Mawrth 1af.

Gan ddymuno tymor llwyddiannus o bysgota i'n haelodau atgoffaf hwy o ddyddiadau y cystadlaethau eleni:

**SADWRN, 2 EBRILL**

Dywarchen; Ieuencid; 1.30 p.m.; £3

**SUL, 3 EBRILL**

Dywarchen; Oedolion; 1.30 p.m.; £6

**SUL, 10 EBRILL**

Trawsfynydd; 10 a.m.; £16

**SADWRN, 23 EBRILL**

Cwellyn; 2 p.m.; £4

**SADWRN, 14 MAI**

Padarn (cwch); 2 p.m.; £4

**SUL, 28 AWST**

Brenig; 10 a.m.; £16

## CAP ARALL I'R FRO

Cymerodd Marc Lloyd Williams gam arall ymlaen yn ei yrfa bêl-droed yn ddiweddar. Chwaraeodd i dîm 'rhanbroffesiynol' Cymru (sef tîm o aelodau clybiau'r Konica) yn erbyn tîm cyfatebol Seisnig o gynghrair y Conference. Yn anffodus colli fu hanes y Cymry o 2-1 ar noson ddiflas ar gyfer pêl-droed. Gall Marc fod yn fodlon ar ei berfformiad ar ochr chwith llinell flaen Cymru. Gall clwb Porthmadog ymfalchïo fod dau o'u hymosodwyr yn nhîm Cymru — Dave Taylor, sgoriwr y gôl oedd y llall.

O gofio safon y gwrthwynebwyr gall Cymru ymfalchïo yn eu perfformiad a'r cyfle i dynnu sylw at safon y Konica. Mae si ar led fod cynnig i ymestyn y Konica. Gobeithio y bydd yr FA yn ddigon parod i gymodi ac edrych ar safon wantan timau isaf y Konica presennol. Fe fyddai Y Barri, Casnewydd, Bae Colwyn, Y Rhyl, Caernarfon a Merthyr yn gwella'r safon.

## TLWS Y 'SIR'

Trwy guro timau Llanrws a Botwnnog llwyddodd tîm o dan 13 oed, cangen yr Urdd, Bethel, i gipio Tlws Pêl-droed Sir Eryri.



Hogia Bethel — wedi gyrru i'r brig!

## TRWODD I'R FFEINAL — EFALLAI!

Fe allai cic gosb lwyddiannus Gwyndaf yn erbyn Caergybi fod yn un o giciau pwysigaf y tymor i Glwb Deiniolen. Ar hyn o bryd mae Deiniolen i fod i gyfarfod â Mochdre ym Methesda ar bawn Sadwrn, 12 Mawrth, yn rownd gyn-derfynol Cwpan Iau y Gogledd. Roedd Mochdre wedi curo Rhyl Delta ar ôl amser ychwanegol a chiciau o'r smotyn. Mae si ar led na fydd y canlyniad yma yn sefyll gan fod cryn amheuaeth os oedd ambell chwaraewr o'r ddau dîm yn ddilys i chwarae yn y gêm. Beth bynnag am hynny, bydd angen cryn gefnogaeth ar yr hogia y pawns hwnnw. Felly, cofiwch heidio i Barc Meurig, Bethesda, ar Sadwrn y 12fed o Fawrth.